Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau

Canllawiau Cynllunio a Rheoliadau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc



## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 31/2007
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2007

**PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU**
**CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION**

# Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol, Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau GIG (Cymru); Cyfarwyddwyr ac Aelodau Arweiniol awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc; Cyfarwyddwyr Gweithredol Byrddau Iechyd Lleol ac Aelodau Bwrdd dynodedig nad ydynt yn swyddogion ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc; Cyfarwyddwyr Arweiniol a Chyfarwyddwyr Anweithredol Ymddiriedolaethau GIG ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, Awdurdodau Heddlu a Phrif Gwnstabliaid heddluoedd Cymru; y Gwasanaeth Tân ac Achub; Prif Swyddogion Prawf; Timau Troseddau Ieuenctid.<br>Ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol; darparwyr Addysg Bellach; Byrddau Lleol Diogelu Plant; mudiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc; Strategaeth Gymunedol; Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Diogelwch Cymunedol a Chymunedau'n Gyntaf a'r awdurdod cynllunio lleol (gan gynnwys y 3 Pharc Cenedlaethol); y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol; Comisiynydd Plant Cymru; Bwrdd yr Iaith Gymraeg; Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus; Cynghorau Iechyd Cymuned; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Sefydliadau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru; y Ddraig Ffynci; cynghorau ysgolion; fforymau ieuenctid lleol; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cyngor Gofal Cymru; unigolion a sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn ganllaw statudol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc, sy'n ofynnol o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004. |
| **Camau i'w cymryd** | Dylai Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill ddilyn y canllawiau wrth baratoi eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:<br>David Middleton<br>Ffôn: 029 2082 5919<br>E-bost: cft@wales.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir eu cael gan:<br>Jane Hanbury<br>Ffôn: 029 2082 5101<br>E-bost: cft@wales.gsi.gov.uk |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau: Canllawiau ar Gydweithredu Lleol o dan Ddeddf Plant 2004, cyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2006 |

G/152/07-08
ISBN 978 0 7504 4295 4

Medi
CMK-22-07-223

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| | Sail Gyfreithiol<br>Sylfaen mewn Partneriaethau a Hawliau<br>Egwyddorion sy'n Sail i Gydweithredu<br>Pwrpas a Chwmpas y Cynllun<br>Adolygiad o'r Cynllun<br>Perthynas â Phartneriaethau a Chynlluniau Eraill<br>Cydlyniaeth Cylchoedd Cynllunio | |
| 2. | Datblygu'r Cynllun | 17 |
| | Amserlen Gyffredinol<br>Cam 1: Asesu Anghenion a Llunio Phroffil o'r Gwasanaeth<br>Cam 2: Datblygu'r Strategaeth<br>Cam 3: Ymgynghori<br>Cam 4: Adolygu a Mabwysiadu<br>Cam 5: Cyhoeddi<br>Cam 6: Adolygiad Blynyddol<br>Craffu<br>Rheoleiddio ac Arolygu | |
| 3. | Cynnwys y Cynllun | 30 |
| 4. | Nod Craidd 1: Y Blynyddoedd Cynnar | 32 |
| 5. | Nod Craidd 2: Cyfleoedd Addysgu a Dysgu | 35 |
| 6. | Nod Craidd 3: Iechyd, Rhyddid Rhag Trais a Chamfanteisio | 42 |
| 7. | Nod Craidd 4: Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant | 49 |
| 8. | Nod Craidd 5: Cymryd Rhan Mewn Gwneud Penderfyniadau | 52 |
| 9. | Nod Craidd 6: Cartref Diogel a Chymuned Ddiogel | 55 |
| 10. | Nod Craidd 7: Heb Fod Dan Anfantais Oherwydd Tlodi | 59 |
| 11. | Cynllunio'r Gweithlu | 61 |
| | Cyflwyniad<br>Cwmpas yr Adran ar y Gweithlu<br>Darparwyr Hyfforddiant | |



Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau

Medi 2007

Dogfen Wybodaeth Rhif 31/2007

Blaenoriaethau
Amrywiaeth
Rheoli Newid
Gofynion o ran Adnoddau a Chyfleoedd
i Gyfuno Adnoddau

Atodiadau 64

1. Camau Cynllunio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc
2. Deddf Plant 2004: Adrannau 25-28
3. Rheoliadau
4. Geirfa

# Crynodeb


Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys canllawiau statudol o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu strategaeth yr awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc berthnasol.

Mae Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007 (y ceir copi ohonynt yn atodiad 3) yn ymwneud â'r canllawiau hyn a byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2007. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol o'r dyddiad hwn.

Yn ôl adran 26 rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y rheoliadau. Cefnogir y canllawiau hyn gan Gylchlythyr 35/2006 (Gorffennaf 2006), *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau* a dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr. Mae'r olaf yn manylu ar y dyletswyddau lleol i gydweithredu ymhlith gwahanol bartneriaid er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae adran 1 yn amlinellu sylfeini'r Cynllun a geir yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ynghyd â'r egwyddorion y mae wedi eu seilio arnynt, ei ddiben a'r cysylltiad rhyngddo a chynlluniau eraill.

Yn adran 2 amlinellir y camau ar gyfer datblygu'r Cynllun yn fanwl.

Mae adran 3 yn ymdrin â chynnwys y Cynllun.

Yn adrannau 4 i 10 disgrifir strwythur y Cynllun mewn perthynas â'r 7 Nod Craidd a'r disgrifiad sydd ei angen mewn cysylltiad â phob Nod craidd, gan gynnwys templedi sy'n ategu'r disgrifiad naratif trwy grynhoi mesurau a thargedau.

Nodir yn adran 11 sut yr ymdrinnir â materion gweithlu yn y Cynllun.



Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau

Medi 2007

Dogfen Wybodaeth Rhif 31/2007

# 1. Cyflwyniad

## Sail Gyfreithiol

1.1 Mae Adran 26 Deddf Plant 2004 (Deddf 2004) a rheoliadau o dan yr adran hon yn mynnu fod awdurdod lleol yn cyhoeddi cynllun yn nodi ei strategaeth ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phob plant a phobl ifanc - a ddiffinnir fel yr holl rai hynny hyd at a chan gynnwys 19 oed a'r rheini dros 19 oed sy'n derbyn gwasanaethau o dan Adrannau 23C i 23D o Ddeddf Plant 1989 (rhai sy'n gadael gofal) neu wasanaethau cymorth ieuenctid o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

1.2 Mae Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007 yn atodiad 2. Yn ôl Adran 26 mae hefyd yn angenrheidiol i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau a roddwyd iddynt gan Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â sut i gyflawni eu swyddogaethau o dan y rheoliadau. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys arweiniad statudol o dan adran 26. Drwy gyfrwng y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, rhaid i awdurdodau lleol hefyd gyflawni eu cyfrifoldebau o dan adrannau 22 a 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006.

1.3 Mae'r canllawiau a'r rheoliadau'n disodli'r gofynion ar gyfer:

- Y Cynllun Gwasanaethau Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol).
- Y Cynllun Addysg Sengl.
- Y Cynllun Partneriaeth Plant.
- Y Strategaeth Partneriaeth Pobl Ifanc a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.
- Cynllun Gweithredu Rheoli Plant yn Gyntaf

1.4 Mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyfredol ar gyfer darparu gwasanaethau'n parhau. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb, a nodir yn mharagraff 1.16. Mae pob partner yn cadw'r atebolrwydd sydd ganddo ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Nid oes grym gan y Bartneriaeth i gyfarwyddo'r cyrff sy'n bartneriaid iddi. Mae'r llwyddiant a gaiff wrth sicrhau cydweithredu'n dibynnu ar ei gallu i ddod i benderfyniadau ar y cyd.

1.5 Mae'r cyfarwyddiadau o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid hefyd yn aros fel y maent. Mynnant fod yn rhaid i awdurdodau sicrhau fod pobl ifanc yn gallu:

- cyfranogi'n effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;
- cymryd mantais o gyfleoedd ar gyfer gwaith; a

- chymryd rhan yn effeithiol mewn bywyd cymunedol.

1.6 Mae'r Cyfarwyddiadau a'r Canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru* (2002) yn darparu ar gyfer sefydlu Partneriaethau Pobl Ifanc i oruchwylio cynllunio a darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau* (paragraffau 3.19 a 3.20) yn caniatáu ar gyfer penderfynu'n lleol a ddylid cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer partneriaethau wedi eu seilio ar oed o fewn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

## Sylfaen mewn Partneriaethau a Hawliau

1.7 Amlinellodd Llywodraeth y Cynulliad ei gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn *Plant a Phobl Ifanc : Gweithredu'r Hawliau* (2004) ac *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru (2002)*. Cefnogir hyn gan Gylchlythyr *35/2006* (Gorffennaf 2006) *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*, sy'n darparu canllawiau ar ddyletswyddau lleol i gydweithredu a rolau arweiniol mewn awdurdodalu lleol, BILlau ac Ymddiriedolaethau GIG; a'r disgwyliad y bydd y ddyletswydd hon i gydweithredu o dan Ddeddf 2004 yn amlwg mewn Partneriaerhau Plant a Phobl Ifanc lleol. Ers cyhoeddi'r cylchlythyr, mae Adran 38 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi mynnu bod cyrff llywodraethu ysgolion yn rhoi ystyriaeth i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol.

1.8 Yn unol â'u cyfrifoldebau statudol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau lleol arwain ar hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth sy'n rhoi gwasanaethau integredig effeithiol ar waith i bob plant a phobl ifanc. Nodir cyfrifoldebau'r rhai hynny sydd â rolau arweiniol yn y sector iechyd ym mharagraffau 9.18 - 9.22 *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*. Mae partneriaethau lleol yn hanfodol er mwyn gwireddu'r dyheadau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu rhannu gyda'i phartneriaid lleol i wella ansawdd gwasanaethau yng Nghymru, fel y nodir yn *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru* (2002).

1.9 Oddi ar 2002 mae partneriaid lleol wedi rhoi llawer o egni ac ymrwymiad i sefydlu cydweithio ar draws Cymru. Mae'r trefniadau diwygiedig ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn mynd â'r dull hwn o weithredu yn ei flaen, ac yn ceisio sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc drwy gryfhau cydweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chyda partneriaid sector gwirfoddol a phreifat. Yn hyn o beth rhaid i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc weithredu fel y datganiad diffiniol o flaenoriaethau a bwriad cynllunio ar gyfer pob gwasanaethau plant a phobl ifanc yn yr ardal.

Rhaid i'r trefniadau ganolbwyntio ar y dinesydd, gan roi anghenion plant a phobl ifanc yn y canol a'u galluogi i gymryd rhan weithredol mewn cynllunio gwasanaethau. Ar ganlyniadau y mae'r ffocws, nid cydymffurfio â phroses.

1.10 Yng nghyd-destun eu rôl yn arwain yn y gymuned, disgwylir i bartneriaid lleol weithio gyda'i gilydd, dan arweiniad yr awdurdod lleol i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith mewn diwylliant ac arferion trefniadol. Cyfrifoldeb y partneriaethau yw cynllunio strategol ar y cyd, a hynny'n cael ei ysgogi drwy lunio proffil o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu a chanfod angen ar y cyd, i gefnogi darparu gwasanaethau integredig.

1.11 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen ei holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mynegir hyn yn y 7 nod craidd fod pob plant a phobl ifanc:

(1) yn cael dechrau teg mewn bywyd;

(2) yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysgu a dysgu;

(3) yn mwynhau'r iechyd gorau posibl a rhyddid rhag trais ac erledigaeth;

(4) yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;

(5) eu bod yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu tras a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;

(6) eu bod â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol; ac,

(7) nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi.

1.12 Mae'r nodau hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar flaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol a dylent ffurfio'r sylfaen ar gyfer penderfyniadau ar strategaethau a darparu gwasanaeth yn lleol. Maent yn crynhoi Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a bwriedir y bydd datblygiad proses adrodd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc dros amser yn ei gwneud yn bosib i fynd ati i fesur i ba raddau y mae hawliau plant yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru. Mae'r Confensiwn ar gael yn: http://www.unicef.org/crc/

1.13 Tanategir gofynion gwasanaethau cymorth ieuenctid (para 1.45) gan 10 hawl ar gyfer pob pobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru, sydd wedi'u hamlinellu yn y Cyfarwyddiadau a'r Canllawiau. Fel gydag agweddau eraill ar y canllawiau hyn, mae pob hawl yn cyfrannu at

fwy nag un nod craidd. Ond er mwyn osgoi dyblygu, yr egwyddor gyffredinol sydd wedi'i mabwysiadu yw y dylai pob thema gael ei chynnwys o dan un nod craidd yn unig. Felly dylai cynllunio strategol ar gyfer pob hawl gael ei ddisgrifio yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan y nod craidd y mae'n ymwneud ag ef, fel a ganlyn:

**(2) cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysgu a dysgu**

- addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith - wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion;
- sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol;
- cyngor a chyfarwyddyd gyrfa arbenigol ac annibynnol, a gwasanaethau cymorth a chwnsela myfyrwyr;

**(3) mwynhau'r iechyd gorau posibl a rhyddid rhag trais ac erledigaeth**

- cymorth a chyngor personol - ble a phryd y mae ei angen ac mewn fformatau priodol - gyda rheolau sylfaenol ar gyfrinachedd;
- cyngor ar iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill mewn lleoliadau hygyrch a chroesawgar;

**(4) bod â mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol**

- cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch;
- profiadau mewn chwaraeon, a phrofiadau artistig, cerddorol ac awyr agored i ddatblygu talentau, ehangu gorwelion a hyrwyddo safbwyntiau cytbwys gan gynnwys mewn cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol;

**(5) eu bod yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a'u tras a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod**

- ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol;
- yr hawl i gael eu cynnwys mewn ymgynghori, i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, ac i'w llais gael ei glywed, ym mhob mater sydd o bwys iddynt neu'n effeithio ar eu bywydau.

Dylai'r hawliau hyn gael eu cyflenwi gan wasanaethau a chyfleusterau ymatebol a hygyrch o safon uchel, mewn amgylchedd lle mae:

- ffocws cadarnhaol ar gyrhaeddiad cyffredinol a beth sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu;

- ffocws ar gynyddu gallu pobl ifanc i ddod yn annibynnol, gwneud dewisiadau, a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd; a
- dathlu llwyddiannau pobl ifanc.

1.14 Bydd y broses Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn disodli trefniadau cyfredol i gynhyrchu cynlluniau strategol pum mlynedd a chynlluniau darparu blynyddol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid.

1.15 Mae Adran 25(3) o Ddeddf 2004 yn cyfeirio at y rhan bwysig a chwaraeir gan rieni ac eraill mewn gofalu am blant a phobl ifanc. Mae magu plant yn gyfrifoldeb a rennir rhwng teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'n hanfodol darparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer oedolion sy'n rhieni a gofalwyr er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus i blant a phobl ifanc, yn ogystal ag osgoi datblygiad angen yn y dyfodol. Dylai partneriaethau ystyried effaith gwasanaethau oedolion ar blant a phobl ifanc a rhoi sylw dyledus i anghenion a barn rhieni a gofalwyr wrth baratoi eu Cynlluniau.

## Egwyddorion sy'n Sail i Gydweithredu

1.16 Mae'r prif egwyddorion sy'n sail i weithio mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u nodi yn *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*. Y rhain yw:

- **Cymhwyso egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig fel y sylfaen ar gyfer ei holl ymwneud â phlant a phobl ifanc. Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol gadw'r hawliau hyn mewn cof wrth ddarparu gwasanaethau. Egwyddor allweddol sy'n tanategu pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yw bod y rhai sy'n eu derbyn yn blant ac yn bobl ifanc o flaen dim. Rhaid darparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd a'u gofalwyr ac sy'n sensitif i'w hanghenion emosiynol, cymdeithasol ac addysgol.

- **Cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gwrdd ag angen**

Mae angen i weithwyr proffesiynol a chyrff gydweithio i fodloni anghenion plant a phobl ifanc unigol a bennwyd ar y cyd, gan ddefnyddio arfau fel y Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd a'r Fframwaith Asesu Cyffredinol.

- **Sicrhau bod clust i wrando ar leisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd**

Rhaid i blant a phobl ifanc allu dylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Y ffordd orau o roi llais i blant yw trwy sicrhau bod gymysgedd o eiriolaeth, cyfranogi a hawliau plant wedi'u gosod yn y brif ffrwd ac yn greiddiol i bob cynllunio gwasanaeth. Rhaid i bartneriaethau a chyrff partner wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cyfranogi effeithiol ym mhob agwedd berthnasol o'u gwaith, gan gynnwys y broses gynllunio. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i gyrraedd y Safonau Cyfranogi ac yn disgwyl i bartneriaethau eu cyrraedd hefyd. Cyfeirir at y rhain ym Mhennod 9.

Er mwyn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd yn ddiogel, mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu barn, eu bod yn cael gwrandawiad ac ymateb pan fo pethau'n mynd o chwith. Dylid ymateb i bob cwyn, a dylai gwasanaethau eiriolaeth annibynnol fod ar gael i blant a phobl ifanc yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl fel y bo'n briodol. Mae eiriolaeth hefyd yn hyrwyddo diwylliant o arferion cyfranogol, yn annog adborth gan ddefnyddwyr y gellir ei ymgorffori mewn cynllunio a chyflenwi gwasanaethau er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau.

- **Rhoi'r brif flaenoriaeth i'r rhai y mae eu hangen fwyaf**

Dylai cydweithredu lleol gynnwys bob plant a phobl ifanc. Mae angen mwy o sylw ar rai gan wahanol weithwyr proffesiynol os ydynt am wireddu eu potensial. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid dyma'r unig rai) plant a phobl ifanc mewn angen, gan gynnwys:

- y rhai hynny sy'n anabl neu â salwch cyfyngol;
- y rheini sydd angen eu hamddiffyn, ar ymylon gofal, mewn gofal, neu sydd wedi gadael gofal;
- y rheini â phroblemau neu salwch iechyd meddwl;
- y rhai hynny ag anghenion cymhleth;
- y rheini sydd wedi troseddu (gallai hyn gynnwys pobl ifanc sy'n treulio eu dedfryd yn Lloegr oherwydd diffyg darpariaeth yng Nghymru) neu sydd mewn perygl o droseddu;
- y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol;
- ceiswyr lloches a ffoaduriaid;
- a'r rheini sy'n byw mewn tlodi.

Dylai partneriaethau roi ystyriaeth ddyledus yn eu Cynlluniau o dan bob nod craidd i blant a phobl ifanc ag anghenion penodol neu sy'n ei chael yn anodd cyrraedd gwasanaethau.

- **Cynllun ar gyfer gwasanaethau ataliol**

Po gyntaf yn y byd y gellir ymyrryd, mae'n fwy tebygol y bydd yn llwyddo. Nid yn unig mae hyn yn well i'r plentyn neu'r person ifanc unigol ond dylai arwain at ganfod problemau posibl yn gynt, a helpu i leihau ymyriadau drutach yn nes ymlaen. Mae mynediad at asesu diagnostig perthnasol, megis gan seicolegwyr addysg yn weithgaredd allweddol mewn cyfnod cynnar. Mae nifer o wasanaethau iechyd, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, physiotherapi, a rhaglenni brechu'n gallu bod yn arbennig o effeithiol o ran gwneud ymyriadau ataliol.

Mae cynllun grant Cymorth wedi ariannu llawer o waith ataliol, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i bartneriaid lleol wneud ymrwymiadau i waith ataliol o'u cyllidebau craidd.

- **Integreiddio diogelwch ar gyfer plant a phobl ifanc**

Rhaid i ddiogelu fod yn rhan hanfodol o bob gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc ac mae'n gyfrifoldeb i bob darparwyr. Rhaid wrth bolisïau adnoddau dynol a phrosesau recriwtio cadarn, gan gynnwys prosesau fetio, ac arfer proffesiynol sicr i'w cefnogi wrth ddiogelu, ynghyd â gwrando ar blant a phobl ifanc. Amlinellir y canllawiau ar ddyletswyddau o dan adran 28 o Ddeddf 2004, i gadw mewn cof yr angen i roi sylw i hybu lles plant a phobl ifanc yn *Diogelu Plant : Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (Cylchlythyr 12/2007)*. Mae cysylltiadau rhwng y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a chynlluniau Byrddau Lleol Diogelu Plant yn arbennig o bwysig. Ceir arweiniad pellach ym mharagraff 1.25.

- **Cynnwys gwasanaethau cyffredinol**

Un o wendidau cyffredin cydweithio yw ei fod yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n cael eu cyllido gan grantiau penodol ac nad yw'n mynd i'r afael â blaenoriaethau gwasanaeth cyffredinol ac ariannu prif ffrwd. Ni all cydweithio lwyddo i wella canlyniadau i bob plant a phobl ifanc oni bai ei fod yn cwmpasu darparu gwasanaethau cyffredinol a defnyddio arian awdurdodau lleol, GIG a chyllid arall.

Rhaid i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc bontio'r bwlch rhwng y rhyngwynebau polisi a gwasanaeth ar draws sectorau, yn arbennig rhwng iechyd ac addysg fel y ddau wasanaeth rhyngwladol allweddol. Mae canlyniadau iach i bobl ifanc yn gofyn am gydweithredu gydag ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill er mwyn helpu i gyflawni'r newidiadau o ran dysgu, agweddau ac ymddygiad sydd eu hangen i wella dewisiadau o ran ffordd o fyw. Un cyfrwng darparu allweddol yn hyn o beth yw Rhwydwaith

Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach. Dylanwadir yn gryf ar ganlyniadau dysgu hefyd gan ffactorau tu allan i'r ysgol gan gynnwys tlodi, iechyd a diet, perthnasoedd teuluol a safonau tai.

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth a'r Offeryn Archwilio Hunan-asesu sy'n cyd-fynd ag ef (gweler paragraff 2.14) yn darparu sail ar gyfer cynllunio ac adolygu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys y ddarpariaeth addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd ar draws y sectorau statudol ac annibynnol. Dylid dwyn y prosesau asesu a ddefnyddir gan bartneriaid at ei gilydd i sefydlu'r broses integredig unigol a ddisgrifir ym Mhennod 2.

- **Cyflenwi integredig drwy gomisiynu ar y cyd a chyllid wedi'i gyfuno**

Mae'n hollbwysig fod cynlluniau'n cynnwys trefniadau er mwyn i ddarparwyr allu cydweithredu i gyflenwi gwasanaethau effeithiol. Gellir gwneud gwasanaethau integredig yn fwy effeithiol lle bo hynny'n briodol trwy gomisiynu ar y cyd a chyfuno cyllid a dylai'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc gynnwys cyfraniadau (gan gynnwys adnoddau heblaw cyllid) gwahanol bartneriaid. Fodd bynnag, o dderbyn goblygiadau comisiynu ar y cyd o safbwynt adnoddau, bydd angen i bartneriaid ystyried yn ofalus ble gellir rhoi hyn ar waith orau. Mae rhagor o wybodaeth yn y penodau ar *Comisiynu ar y Cyd* ac *Integreiddio'r Gwaith o Ddarparu Gwasanaethau* yn *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*.

- **Gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

Mae'n hanfodol fod cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori ym mhob polisi a gwasanaeth sy'n gynwysedig o fewn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae *Iaith Pawb* yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Gymru ddod yn wlad wirioneddol ddwyieithog. Trwy hyn golygwn wlad lle gall pobl fyw eu bywydau drwy'r Saesneg, y Gymraeg neu'r ddwy iaith. Mae dewis iaith yn gydran bwysig wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd. Yn achos grwpiau penodol, yn arbennig, plant a phobl ifanc gydag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, mae ymchwil wedi dangos ei bod yn arbennig o bwysig bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yn eu mamiaith.

Yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i bwysigrwydd cynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth ac mae'n gweithio gyda chyrff cyflenwi gwasanaethau i helpu i gyflawni'r nod hwn. Mae angen i bartneriaid amlinellu eu bwriadau ynghylch darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y Cynllun Plant a

Phobl Ifanc a sut y byddant yn cydweithio i wella darpariaeth. Mae angen i bartneriaethau ystyried yr angen i ddarparu gwasanaethau'n briodol i blant a phobl ifanc mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg hefyd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhyw a hil a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Wrth weithio gyda'i gilydd, rhaid i bartneriaid roi sylw dyledus i'w cyfrifoldebau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a dileu gwahaniaethu o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Rhaid i bob Cynllun Plant a Phobl Ifanc gynnwys datganiad yn nodi sut y bydd y partneriaid perthnasol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth gydraddoldeb a ganlyn:

- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975.
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, gan gynnwys y polisi ynddi ar hyrwyddo ymwybyddiaeth hiliol a'i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth a'i atal.
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, gan gynnwys gofynion o fis Rhagfyr 2006 ar gyfer cynlluniau cydraddoldeb i'r anabl.
- Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae gwaith gyda'r Fforwm Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig yn amlygu'r ffaith nad yw pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn teimlo'n rhan o'r brif ffrwd; ac mae'n ymddangos bod materion diwylliannol yn ffactor yn y diffyg ymgysylltu hwn. Mae'n hollbwysig mynd i'r afael â hyn wrth ddechrau llunio strategaethau, a pholisïau a darparu gwasanaethau a'i fod yn cael ei ganfod trwy asesu effaith.

Mae angen i bartneriaethau drefnu bod eu gweithdrefnau hunan-asesu ac adolygu'n cynnwys gwerthusiad o effaith cydraddoldeb. Bydd mesurau i ddangos cynnydd wrth weithredu darpariaethau cysylltiedig â chyfleoedd cyfartal a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cael eu datblygu ar gyfer ymgynghori.

## Pwrpas a Chwmpas y Cynllun

1.17 Cynllun strategol tair blynedd yw'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a ddatblygwyd ac sy'n eiddo i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Diben y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw:

- darparu gweledigaeth strategol a datgan y blaenoriaethau cytûn a fydd yn cyfarwyddo gwaith yr holl bartneriaid;
- disgrifio sut yr eir i'r afael â gofynion strategaethau, polisïau, a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r prif elfennau fydd yn sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau o dan bob un o'r saith nod craidd;
- nodi targedau a gytunwyd ar y cyd er mwyn gallu mesur cynnydd mewn gwella canlyniadau dros yr amserlen gynllunio;
- nodi'r cyfraniad a wneir gan bartneriaid unigol tuag at gyflawni amcanion ar y cyd, gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn gefnogol i'w gilydd; a
- darparu sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd a rhannu cyllid sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd partneriaid statudol a chyfraniadau ariannol neu adnoddol gan y sector gwirfoddol.

1.18 Mae cwmpas y Cynllun yn ymestyn ar draws gwasanaethau i bob plant a phobl ifanc o'r cyfnod cynenedigol hyd at 19 oed, ynghyd â rhai sy'n gadael gofal hyd at 21 (neu hŷn os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant parhaus) a'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau cymorth ieuenctid (o fewn ystyr Adran 123 o'r Ddeddf Dysgu a Medrau) hyd at 25 oed.

1.19 Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd y datganiad diffiniol o fwriad a blaenoriaethau cynllunio strategol ar gyfer yr holl wasanaethau plant a phobl ifanc yn yr ardal. Yn hyn o beth, bydd yn gweithredu fel man cyfeirio ar gyfer pob cynllun arall. Mae swyddogaeth bwysig gan y rhai hynny â chyfrifoldebau arweiniol o dan Ddeddf 2004 i sicrhau mai felly y mae. Dylai'r cynllun gynnwys yr ystod gyflawn o wasanaethau a ddarperir ar gyfer y grŵp oedran gan bartneriaid - er enghraifft, pob gwasanaeth iechyd ar gyfer y grŵp oedran, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a ddarperir tu allan i ffin yr awdurdod lleol, ac nid yn unig y rhai hynny sy'n cysylltu â gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol.

## Adolygiad o'r Cynllun

1.20 Bydd rhaid i bartneriaethau gyhoeddi cynllun newydd bob tair blynedd ond mae angen iddynt adolygu cynnydd yn flynyddol hefyd. Digrifir y gofynion ar gyfer adolygiadau blynyddol yn mhennod 2.

## Perthynas â Phartneriaethau a Chynlluniau Eraill

### Strategaeth Gymunedol

1.21 Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2000 rhaid i bob awdurdod lleol baratoi a chytuno ar strategaeth gymunedol gyda'i bartneriaid i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal a chyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy yn y DU. Mae'r Strategaeth yn darparu datganiad cyffredinol dros gyfnod o 10-15 mlynedd sy'n hysbysu ac yn adlewyrchu cynlluniau strategol 3 blynedd byrrach sy'n ymdrin â themâu perthnasol.

1.22 Ceir gwybodaeth bellach ym mharagraff 2.2, a Phennod 3, o'r Canllawiau Strategol Cymunedol diwygiedig a gyhoeddir ar gyfer ymgynghori arno yn hydref 2007.

### Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

1.23 Mae Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn gyfrifoldeb statudol ar y cyd i awdurdodau lleol (ALlau) a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau). Maent yn canolbwyntio ar weithredu ar y cyd yn lleol i sicrhau gwelliant amlwg mewn lles a lleihau anghydraddolebau. Bydd angen Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles newydd o Ebrill 2008. Cyhoeddwyd canllawiau ym mis Mawrth 2007.

1.24 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gymeradwyo fersiwn derfynol y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a bydd angen i gysylltiadau priodol gyda'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles fod yn eu lle. Er enghraifft, rhaid ystyried gwybodaeth ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc ar gyfer y ddau gyd-destun; a'r elfen asesu anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ddylai ffurfio elfen iechyd a gofal cymdeithasol asesiad anghenion y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Dros amser, dylai cynllunio Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ddatblygu i fod y prif fecanwaith cynllunio ar gyfer materion iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar gyfer plant a phobl ifanc, a dylai eu blaenoriaethau gael eu hadlewyrchu yn y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

### Byrddau Lleol Diogelu Plant

1.25 Mae'n ofynnol i Fyrddau Lleol Diogelu Plant gydlynu gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae *Diogelu Plant : gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* yn mynnu eu bod yn cynllunio eu gwaith i ffitio'n eglur o fewn y blaenoriaethau a'r gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Maent yn gyfrifol am ddatblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad yr awdurdod lleol yn erbyn y Cynllun i'r graddau y bo a wnelo'r Cynllun â diogelu a hyrwyddo lles plant yr ardal. Rhaid i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ymgynghori â hwy ar faterion sy'n effeithio ar ddiogelu plant a'u lles. Rhaid iddynt gael cynrychiolaeth hefyd ar y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

**Cynlluniau Datblygu Lleol**

1.26 Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) dylid cymryd cyfrif o'r blaenoriaethau a'r strategaethau sydd wedi'i nodi yn y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

**Partneriaethau Dioglewch Cymunedol**

1.27 Disgwylir i Bartneriaethau Dioglewch Cymunedol gynnal archwiliad ac ymgynghori â chymunedau lleol wrth ddatblygu eu strategaeth. Mae strategaethau cyfredol yn ymestyn dros y cyfnod 2005-08 ac mae targedau ganddynt i leihau troseddu mewn meysydd allweddol gan gynnwys: troseddu ymhlith ieuenctid, troseddu cysylltiedig ag alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a throseddu treisgar.

1.28 Dylai'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc roi ystyriaeth i strategaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r cynllun cyfiawnder ieuenctid lleol ar gyfer lleihau troseddu ac aildroseddu. Rhaid i'r cynlluniau hyn yn eu tro gael eu hysbysu gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

**Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14-19**

1.29 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14-19 blynyddol hyd nes bod y cyllid ychwanegol cyfredol yn cael ei osod yn y brif ffrwd. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i gynllunio ar gyfer 2010. Dylai'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc gynnwys blaenoriaethau strategol yr awdurdod ar gyfer datblygu darpariaeth 14-19 a chyfeirio at ei Gynllun Datblygu Rhwydwaith 14-19 Blynyddol. O 2010 ymlaen bydd y rhwydweithiau strategol a sefydlwyd i oruchwylio cynllunio 14-19 yn cael eu hymgorffori mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

**Cynlluniau Gweithredol**

1.30 Dylai'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc fod yn ddogfen strategol resymol o ran ei hyd a bydd angen cynlluniau gweithredol i'w gefnogi. Mater i'w benderfynu'n lleol fydd fformat y cynlluniau, o gofio fod cynlluniau o'r fath yn debygol o gael eu harchwilio fel rhan o arolygiadau.

### Gweithio gyda Phartneriaethau eraill

1.31 Mae *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau* a *Diogelu Plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* yn cynnwys cyngor ar gydlynu cynllunio ar draws Byrddau Lleol Diogelu Plant, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol lle ceir aelodaeth graidd gyffredin o bartneriaid statudol (gweler Atodiad 1 *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*). Dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i optimeiddio trefniadau gweithio ar y cyd, lleihau dyblygu a darparu llinellau atebolrwydd clir ar draws Partneriaethau.

1.32 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i barhau i sicrhau cysondeb rolau a swyddogaethau ar draws partneriaethau a chynlluniau er mwyn lleihau dyblygu a chynyddu cydlyniaeth.

### Byrddau Gwasanaeth Lleol

1.33 Yn unol â *Chreu'r Cysylltiadau : Cyflawni ar Draws Ffiniau (2006)*, bydd Byrddau Gwasanaeth Lleol yn cael eu sefydlu ym mhob ardal awdurdod lleol i arwain ar gyflenwi'r Strategaeth Gymunedol a blaenoriaethau strategol cenedlaethol cytûn ar draws gwasanaethau. Byddant o gymorth i sicrhau bod strategaethau cymunedol yn cymryd cyfrif o strategaethau lleol eraill ac yn cysylltu'n briodol â hwy, a'u bod wedi'u seilio ar ymrwymiad lleol cryf i ddarparu. Bydd rôl bwysig i'r Byrddau o ran sicrhau bod materion anodd yn cael eu rheoli'n hyderus. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau yn ffordd cydweithredu a darparu a chymryd camau i gynyddu gallu ac arbenigedd mewn partneriaethau. Bydd yn briodol i'r blaenoriaethau strategol allweddol a nodwyd yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc gael eu hadlewyrchu yng Nghytundeb Gwasanaeth Lleol y Bwrdd.

## Cydlyniaeth Cylchoedd Cynllunio

1.34 Cynllun strategol 3 blynedd yw'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Bydd angen i'r cynllun cychwynnol gynnwys y blynyddoedd ariannol 2008-09 i 2010-11. Mae hyn yn cyd-fynd â Chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno setliadau cyfalaf a refeniw llywodraeth leol 3 blynedd o 2008-09; y cylch nesaf o Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; y cylch nesaf o *Cynllun Oes* (sy'n disgrifio datblygiad y gwasanaethau iechyd yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf); a dechrau'r cylch 4 blynedd nesaf o Strategaethau Cymunedol.

# 2. Datblygu'r Cynllun

2.1 Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw canlyniad ysgrifenedig proses gynllunio'r Bartneriaeth. Mae angen i'r Bartneriaeth sicrhau, wrth baratoi'r Cynllun, fod yna newid o gynllunio cyfochrog, seiliedig ar wasanaeth, i gynllunio ar y cyd sy'n canolbwyntio ar anghenion a hawliau plant a phobl ifanc. Bydd cynllunio ar sail canlyniadau yn seiliedig ar sicrhau canlyniadau i blant a phobl ifanc yn helpu'r holl randdeiliaid i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a mesur gyda'i gilydd effaith yr holl wasanaethau ac ymyriadau perthnasol.

2.2 Er mwyn cynllunio gwelliannau i'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd angen i bartneriaid lleol drafod y gwasanaethau cyfredol yn agored a di-flewyn-ar-dafod a dod i gytundeb ynglŷn â'r newidiadau sydd eu hangen. Mae angen i gyd-gynllunio a chytuno ar ganlyniadau sbarduno cynllunio gweithredol holl ddarparwyr gwasanaethau'r ardal. Mae angen i'r Bartneriaeth sicrhau bod y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn sbardun i gynlluniau gweithredol y cyrff sy'n rhan ohono.

2.3 Rhaid i'r Bartneriaeth gynnwys ac ymgysylltu â'r holl bartneriaid perthnasol (gweler y canllawiau yn *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*) a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae sawl cyfnod sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn perthyn i'r broses gynllunio:

- Asesu anghenion a llunio proffil gwasanaethau.
- Datblygu'r Strategaeth.
- Ymgynghori.
- Diwygio a Mabwysiadu.
- Cyhoeddi.
- Yr Adolygiad Blynyddol.

## Amserlen Gyffredinol

2.4 Dylai'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a phartneriaid unigol fabwysiadu'r Cynllun (erbyn 31 Gorffennaf) a dylai'r awdurdod lleol ei gymeradwyo'n ffurfiol erbyn 31 Gorffennaf 2008. Dylid cyhoeddi'r Cynllun ar wefan yr awdurdod lleol a bydd yn dod i rym erbyn 30 Medi 2008.

2.5 Yn ystod y cylchoedd 3 blynedd sy'n dilyn bydd disgwyl i Bartneriaethau fabwysiadu a chyhoeddi eu cynlluniau erbyn 1 Ebrill yn y flwyddyn gyntaf y mae'r cynllun yn cyfeirio ati.

2.6 Mae'r amserlen hon yn cydnabod bod angen i bartneriaid ddod yn gyfarwydd â'r broses newydd a chynnal asesiad o anghenion a mapio'r gwasanaethau a ddarperir. Felly, er bod cynlluniau'n ymwneud â'r tair blwyddyn ariannol yn cychwyn ar 1 Ebrill 2008, gall Partneriaethau gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol ar yr amod bod eu cynllun terfynol yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu erbyn 31 Gorffennaf 2008 a'i gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol erbyn 30 Medi 2008.

## Cam 1: Asesu Anghenion a Llunio Proffil o'r Gwasanaeth

2.7 Mae angen i'r holl bartneriaid ymwneud â nodi angen gan fod gan bob un gyfraniad i'w wneud. Mae angen proses o asesu anghenion ar y cyd fel sylfaen i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd. Mae'r rhai hynny sy'n gyfrifol am arwain o dan Adran 27 o Ddeddf 2004 yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.

2.8 Fel yr asiant arweiniol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y broses gynllunio ac adolygu. Mae grant Cymorth Llywodraeth y Cynulliad yn dal i fod ar gael i gefnogi proses gynllunio'r bartneriaeth a chyfranogiad plant a phobl ifanc ynddi. Mae'r trefniadau cynllunio newydd a nodir yn y canllawiau hyn yn disodli amryw o ofynion cyfredol a gellir disgwyl iddynt ryddhau amser staff ac adnoddau pob corff partner fel y gallant weithio ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

### Cyfranogiad plant, pobl ifanc a theuluoedd

2.9 Mater hollbwysig yw bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cymryd rhan. Dylent gyfrannu at asesu anghenion ac at ddatblygu a chyflawni'r strategaeth wedi hynny. Mae gan rai awdurdodau fforwm ieuenctid sirol effeithiol sy'n cynrychioli barn amrywiaeth eang o bobl ifanc. Ceir rhwydweithiau rhieni effeithiol mewn sawl sir hefyd. Mae cynghorau ysgol yn gyfrwng priodol ar gyfer ceisio barn plant a phobl ifanc a gall grwpiau rhieni sy'n gysylltiedig ag ysgolion hefyd ddarparu cyfle i gymryd rhan. Dylai'r Bartneriaeth ddefnyddio'r strwythurau hyn a chyfeirio at y canllawiau ar Strategaethau Cyfranogiad Lleol. Dylai Partneriaethau hefyd weithio i nodi cyfleoedd i estyn allan at grwpiau eraill o blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd â diddordebau arbennig neu sy'n anodd eu cyrraedd, gan wneud yn siŵr bod y dulliau yn rhai y gall y plant a'r bobl ifanc eu deall yn rhwydd. Gellid gofyn i grwpiau o'r fath roi eu barn ar anghenion a'r hyn fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae angen i grynodeb o farn defnyddwyr fod yn rhan o'r cyd-asesiad anghenion.

## Ffynonellau Data

2.10 Mae gan amryw o bartneriaid ddata perthnasol: yr awdurdod lleol (yr adrannau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, hamdden, gwasanaeth ieuenctid a thai yn bennaf); Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau iechyd; ysgolion; yr heddlu; timau troseddu ieuenctid; a darparwyr gwirfoddol, cymunedol a phreifat lleol. Ceir data ar Wefan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol: www.lgdu-cymru.gov.uk ac oddi wrth Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru: www.nphs.wales.nhs.uk. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi amrywiaeth eang o ddata yn ymwneud â phob maes polisi, llawer ohono'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae hwn i'w weld ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn: www.wales.gov.uk/statistics neu www.cymru.gov.uk/ystadegau.

2.11 Ymysg yr enhreifftiau o ymchwil, gwybodaeth a data perthnasol mae:

- data a gesglir gan asiantaethau partner fel mater o drefn, yn enwedig ar berfformiad lleol o'i gymharu â'r prif ganlyniadau a'r mesurau canlyniad;
- gwybodaeth am angen a gynhwysir mewn cynlluniau cyfredol ee y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Addysg Unigol, Cynllun Busnes y Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- data a gesglir ac a drefnir gan wasanaethau ac ymarferwyr ee Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Ieuenctid, Ymwelwyr Iechyd, Llyfrgelloedd a Chanolfannau Hamdden;
- ymchwil leol a gynhaliwyd, er enghraifft, gan dimau troseddu ieuenctid, Cwmnïau Gyrfaoedd, ysgolion unigol, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac eraill ac mewn Arolygon Cymunedau sy'n Gofalu;
- Offeryn Archwilio Hunan-asesu'r NSF (SAAT);
- gwybodaeth am leoedd ysgol a'r nifer sy'n eu hawlio, yn cynnwys galw a chyflenwad cyfrwng Cymraeg, a chanlyniadau arolygon a gynhaliwyd i bennu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol;
- adolygiad blynyddol o ba mor ddigonol yw gofal plant;
- data'r arolwg Ymestyn Hawliau;
- y polisi enghreifftiol 'Dangos Llwyddiant' sy'n seiliedig ar ganlyniadau;
- data'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar bobl ifanc sy'n troseddu ac effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n eu cefnogi;

- dadansoddiad lleol o gwynion;
- adroddiadau ar arolygon cenedlaethol a rhyngwladol ee astudiaeth ar Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC), yr Arolwg Cymryd Rhan mewn Chwaraeon (Cyngor Chwaraeon Cymru), Arolwg Gofalwyr Ifanc (Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr);
- adroddiadau sy'n dod â gwybodaeth amrywiol ar les plant ynghyd ee Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru a Wellbeing of Children in the UK (Achub y Plant);
- astudiaethau academaidd a gwerthusiadau o berfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau;
- ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, cymunedau lleol a staff;
- adolygiadau lleol o wasanaethau sy'n rhoi gwybodaeth am ansawdd, costau effeithiolrwydd a barn defnyddwyr gwasanaethau, ac
- adroddiadau arolygu yn cynnwys adroddiadau gan y Prif Arolygwyr a Swyddfa Archwilio Cymru.

2.12 Nid yw data a gesglir gan awdurdodau lleol/byrddau iechyd lleol o reidrwydd yn adlewyrchu anghenion cymunedau daearyddol neu gymunedau angen penodol. Anogir partneriaethau i ddadansoddi data islaw lefel yr awdurdod lleol/bwrdd iechyd lleol, yn ôl ward er enghraifft, gan gadw mewn cof y gall data fod yn gamarweiniol neu y gall cyfrinachedd fod yn broblem pan fo'r niferoedd yn fach.

2.13 Dylai'r asesiadau digonolrwydd gofal plant sy'n ofynnol o 2007-08 o dan y Ddeddf Gofal Plant 2006 ffurfio rhan o'r broses asesu anghenion a dylid eu cyhoeddi ar wahân. Mae angen i'r awdurdod lleol adolygu'r asesiad wrth i ddata newydd ar ofal plant ddod i law a phob blwyddyn, o leiaf. Dylai'r wybodaeth ddiwygiedig hon ffurfio rhan o adolygiad blynyddol y Cynllun. Mae angen asesiad llawn bob tair blynedd.

**Y Fframwaith Gwasanaeth Lleol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth**

2.14 Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn nodi safonau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc. Cefnogir pob safon gan gamau allweddol. Mae'r NSF yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan sawl partner ac mae'n rhan hollbwysig o sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd am gwrdd ag angen a phennu blaenoriaethau. Bydd sefydliadau perthnasol yn rhoi sgôr i'w gwasanaethau ar

sail pob Cam Allweddol o'r NSF ac yn eu cofnodi ar yr Offeryn Archwilio Hunan-asesu (SAAT). Drwy lenwi'r SAAT bob blwyddyn bydd gan y Bartneriaeth wybodaeth am safonau cyflenwi gwasanaethau. Erbyn hyn mae'r wybodaeth o'r SAAT yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau'r Partneriaethau ac o fewn asiantaethau. Dylai'r wybodaeth hon fod yn sylfaen i bennu blaenoriaethau. Dylai'r Bartneriaeth ddangos yn glir o fewn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ei hymrwymiad i weithredu'r NSF. Bydd y pecynnau cymorth ar Ddeallusrwydd Emosiynol sy'n cael eu datblygu fel rhan o Ddangos Llwyddiant yn berthnasol hefyd.

**Dadansoddi data**

2.15 Unwaith y mae wedi'i chasglu, mae angen rhoi trefn ar yr wybodaeth a'i dadansoddi. Mae'r fframwaith o nodau craidd a chanlyniadau blaenoriaeth a ddisgrifir ym mhenodau 4-10 yn darparu stwythur. Dylai'r dadansoddiad gynnwys tueddiadau dros amser ac asesiad o'r galw yn y dyfodol. Dylai'r asesiad anghenion dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad lleol yn is na chyfartaledd Cymru, lle mae perfformiad lleol yn gyfartalog ond y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn isel, ar y cyfan; neu lle mae blaenoriaethau neu dueddiadau cenedlaethol yn awgrymu bod angen mynd i'r afael â mater.

2.16 Dylai'r asesiad anghenion sylweddoli bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc angen mwy o sylw gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol er mwyn iddynt gyflawni eu potensial. Mae'r rhain yn cynnwys plant mewn angen, yn cynnwys plant a phobl ifanc anabl; plant sydd angen eu hamddiffyn ac y gofelir amdanynt gan awdurdodau lleol; plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth; plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu; plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; ceiswyr lloches a ffoaduriaid; plant sy'n byw mewn tlodi; a grwpiau sy'n cael eu gwthio i'r ymylon o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol neu eu cefndir ethnig. Dylai partneriaethau hefyd ystyried y llu o blant sy'n mynd drwy achosion yn y llys teulu, gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael gan CAFCASS Cymru. Mae'n bosibl y bydd partneriaethau am ystyried dod â staff o wahanol asiantaethau partner at ei gilydd i gynhyrchu un asesiad anghenion lleol a fydd yn sail i ddatblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Strategaeth Diogelwch Cymunedol, Cynllun Busnes y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a Strategaeth Gymunedol.

**Diweddaru blynyddol**

2.17 Dylid diweddaru'r asesiad anghenion fel rhan o'r adolygiad blynyddol a'r cylch cynllunio.

### Mapio gwasanaethau

2.18 Mae mapio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr holl bartneriaid yn hanfodol fel sylfaen i'r broses gynllunio. Dylai'r wybodaeth a gesglir gan yr holl bartneriaid (statudol, gwirfoddol, annibynnol a heb eu datganoli) gynnwys:

- y math(au) o wasanaethau a ddarperir;
- mathau ac oedrannau'r plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd y mae'r gwasanaeth(au) yn eu targedu neu sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- nifer y staff, ynghyd â'u swyddi;
- adeiladau sy'n eiddo iddynt ac a ddefnyddir i gyflenwi gwasanaethau, a
- defnyddio cyllid o gyllidebau gwasanaethau prif ffrwd a grantiau.

2.19 Mae angen i'r proffil gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am ffynonellau a symiau'r cyllid prif ffrwd a'r cyllid grant a ddefnyddir ar gyfer meysydd gwasanaeth unigol.

2.20 Mae angen dadansoddi'r wybodaeth a'i threfnu'n broffil o'r gwasanaeth. Gellid ei threfnu ar sail themâu, gan wahanu gwasanaethau cyffredinol a phenodol, neu yn ôl grŵp oedran ar sail sirol. Mae gwybodaeth am wasanaethau ar lefel ward neu lefel ddaearyddol debyg yn ddefnyddiol er mwyn gallu nodi meysydd sy'n gorgyffwrdd.

2.21 Ar ôl dod â hwy at ei gilydd, dylid defnyddio'r asesiad anghenion a'r proffil gwasanaeth i nodi cryfderau a gwendidau'r gwasanaethau a ddarperir - bylchau a gorgyffwrdd neu ddyblygu. Mae hyn yn rhoi syniad o'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu gwasanaethau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli ar y cyd, dod â hwy at ei gilydd a'u comisiynu'n wahanol, neu eu dadgomisiynu.

2.22 Dylid cyhoeddi'r asesiad anghenion, yn cynnwys barn y plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd a chrynodeb o'r dogfennau ffynhonnell, yn ogystal â'r proffil o'r gwasanaeth, ar wefan yr awdurdod. Gellir hepgor data sy'n sensitif yn fasnachol ond dylid cynnwys nodyn yn esbonio hyn yn y naratif. Bydd y proffil o'r gwasanaeth yn adnodd gwerthfawr i'r Gwasanaeth Gwybodaeth lleol ar gyfer Plant.

## Cam 2: Datblygu'r Strategaeth

### Gweledigaeth

2.23 Ar ddiwedd ei chylch cynllunio tair blynedd, dylai'r Bartneriaeth gytuno ar ddatganiad o'i gweledigaeth i'w chyfleu i'r holl

randdeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, yn seiliedig ar ei barn ar yr hyn fydd yn llwyddo o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc, ynghyd â'r cyfeiriad a'r cynnydd sydd i'w gyflawni. Gallai hyn ymddangos ar ddechrau cyfnod datblygu'r Cynllun a bod yn sail i'w gynhyrchu, neu'n ddiweddarach yn y broses gynllunio. Dylai gyfeirio at y prif ganlyniadau a rennir gan y Bartneriaeth, ymrwymiadau'r partneriaid a phatrymau cyflawni gwasanaethau yn y dyfodol.

**Cytuno ar Newidiadau**

2.24 Dylid ystyried pob Nod Craidd yng ngoleuni'r dadansoddiad anghenion a'r proffil o'r gwasanaeth. Efallai y bydd yn briodol cynnwys partneriaid a darparwyr gwasanaethau ychwanegol yn nhrafodaethau'r Bartneriaeth o rai nodau craidd penodol. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau yn cyfrannu at y rhan fwyaf neu at bob un o'r nodau craidd ond er mwyn osgoi dyblygu, ni ddylai'r un deunydd ymddangos o dan wahanol nodau craidd. Wrth gynllunio ar y cyd ar gyfer pob nod craidd dylid ystyried:

- y sylfaen dystiolaeth;
- nodi bylchau neu ddyblygu a darpariaeth sy'n gorgyffwrdd;
- opsiynau o ran ymyriadau ataliol cynnar;
- sut y gellir chwalu ffiniau rhwng gweithwyr proffesiynol a sectorau er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau i ddefnyddwyr, a
- chyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd neu welliannau.

2.25 Mae Partneriaethau *Cryfach i Wella Canlyniadau* yn cynnwys canllawiau ar gyd-gomisiynu. Gall y broses o gyd-gomisiynu gwasanaethau fod yn strategol, gweithredol neu ar gyfer plentyn neu berson ifanc unigol. Bydd yr Uned Cefnogi Partneriaeth o fewn y CLlLC yn gallu helpu i sicrhau bod cyngor a chanllawiau ystyrlon ar gael i gefnogi gwaith partneriaeth.

2.26 Gall cyllidebau cyfun ac adnoddau eraill gefnogi trefniadau cyd-gomisiynu. Mae disgwyl i bartneriaid ddefnyddio cyfraniadau oddi wrth sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat yn effeithiol er mwyn adeiladu ymagwedd systemau cyfan i ddarpariaeth gwasanaethau. Gall sefydliadau'r sector gwirfoddol gyfrannu drwy ddarparu swyddfeydd ar gyfer staff sydd wedi'u lleoli gyda'i gilydd, trwy gyfrannu staff i dimau aml-asiantaeth neu trwy gyrchu cyllid sydd ddim ar gael i bartneriaid statudol. Dylid ystyried yr holl arian grant prif ffrwd a phenodol sydd ar gael wrth wneud trefniadau i gyfuno cyllidebau lle byddai amodau grant yn caniatáu hyn. Efallai y byddai partneriaid yn dymuno ystyried ymestyn amrediad cytundebau

ffurfiol a wnaed o dan adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (Cymru) 2006 (cyn adran 31 Deddf Iechyd 1999) i danategu ariannu ar y cyd.

2.27 Dywed *Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau* bod cydweithio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn angenrheidiol os am sicrhau ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Gellir darparu rhai gwasanaethau arbenigol orau lle bo mas critigol o ddefnyddwyr gwasanaeth. Felly, dylai comisiynu lleol ystyried cydweithio gyda chyrff gwasanaeth neu bartneriaethau eraill ar lefel ranbarthol neu Gymru gyfan.

2.28 Dylid gosod cynigion ar gyfer cyd-gomisiynu yn adrannau'r Cynlluniau ar y Nodau Craidd perthnasol. Dylid amlinellu cyfraniadau a wnaed i gronfeydd cyfun ac at ba bwrpas y cawsant eu bwriadu yn y cynlluniau gweithredol ategol.

**Mesurau a Thargedau Canlyniadau**

2.29 Ymgymerwyd â gwaith, sy'n gysylltiedig â chyfresi data craidd i fesur perfformiad awdurdodau lleol, i ddisgrifio ystod o ganlyniadau blaenoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd â mesurau canlyniadau perthnasol. Mae'r fframwaith mesurau canlyniadau a gafwyd o ganlyniad i hyn, a amlinellwyd yn y penodau a ganlyn ar Nodau Craidd, yn defnyddio mesurau sydd ar gael ac sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd. Y bwriad yw:

- arddangos bod canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn gwella a darparu data sylfaenol i arolygu a rheoleiddio gwasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth;
- dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn gweithredu hawliau plant a phobl ifanc, a thrwy hynny, bodloni gofynion adrodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; a
- darparu fframwaith ar gyfer symud o ffocws sy'n seiliedig ar wasanaethau i ffocws sy'n seiliedig ar anghenion plant a phobl ifanc yn unol â'r Saith Nod Craidd.

2.30 Mewn nifer o achosion nid yw mesurau canlyniad addas ar gael, un ai o gwbl neu ar lefel leol. Yn yr achosion hyn, defnyddir mesurau mewnbwn, proses neu allbwn yn eu lle neu gall Partneriaethau osod mesurau lleol. Wrth lunio mesurau lleol, bydd Partneriaethau am ystyried y ffynonellau data y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.11 uchod. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu ac ymgynghori ar fesurau canlyniad priodol yn barod ar gyfer cylch cynllunio 2011. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan newidiadau i'r fframwaith mesur perfformiad cenedlaethol, mesurau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

a datblygiad Dangos Llwyddiant ar gyfer mesur effeithiau ar blant 11-25 oed.

2.31 Dylai targedau adlewyrchu cyd-ddyheadau partneriaid. Dylai'r asesiad anghenion cyfun roi gwybodaeth i'r Bartneriaeth ar berfformiad presennol. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon ac ar ddealltwriaeth o anghenion ac amodau lleol, mae angen i'r Bartneriaeth gytuno ar ei blaenoriaethau ar gyfer 3 blynedd y Cynllun, dethol mesurau priodol a gosod targedau fel y bo angen ar gyfer pob blaenoriaeth. Dylid amlinellu'r targedau drwy ddefnyddio'r templed o fewn yr adrannau ar bob Nod Craidd yn y canllaw hwn.

2.32 Dylai targedau fod yn seiliedig ar ddyfarniadau am effeithiau newidiadau cytûn yn sgil perfformiad y gorffennol a'r presennol. Lle bo targedau cenedlaethol yn bodoli, mae angen i'r rhain fod yn sail i dargedau lleol. Dylid gosod targedau drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad statudol perthnasol neu fesurau canlyniad lleol. Dylent ddisgrifio'r perfformiad a ddisgwylir ar ddiwedd y cylch cynllunio 3 blynedd, er, mewn rhai achosion, bod angen targedau ar gyfer pob blwyddyn o'r cylch. Lle nad oes angen targedau blynyddol, efallai y bydd y Partneriaethau'n eu cael yn ddefnyddiol er hynny i ysgogi gwelliannau.

2.33 Mae rhai targedau'n gysylltiedig â bodloni gofynion statudol, neu'n ofynnol yn statudol, gan gynnwys targedau ar gyfer addysg, gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau sydd heb eu datganoli fel yr heddlu, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau Timau Troseddau Ieuenctid. Lle nad yw asiantaethau'n llwyddo i gydymffurfio'n llawn, mae angen gosod targedau uchelgeisiol er mwyn cyflawni hyn.

### Nodi cyfrifoldeb a chysylltiadau â chynlluniau gweithredol

2.34 Dylai trafodaethau arwain at gytundeb ynghylch y newidiadau sydd eu hangen ar wasanaethau presennol a'r camau y mae angen eu cymryd. Dylid nodi aelod o'r Bartneriaeth i arwain ar gamau penodol, neu gellid aseinio gweithrediad i grŵp cynllunio penodol. Hefyd, dylid cyfeirio at gynllun gweithredol perthnasol, ar gyfer gweithredu'r newidiadau cytûn.

### Agweddau Datblygu Gweithlu

2.35 Bydd angen ystyried goblygiadau'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y Cynllun o ran datblygu'r gweithlu.

## Cam 3: Ymgynghori

2.36 Unwaith bo’r Cynllun drafft wedi’i gwblhau, mae’n rhaid ei gyhoeddi i ymgynghori arno yn unol â’r rheoliadau. Dylid rhoi copïau ymgynghori i bob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod:

- yr awdurdod heddlu a phrif swyddog heddlu’r ardal;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaethau GIG sy’n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Llywodraeth y Cynulliad.

hefyd, dylid eu hanfon at:

- darparwyr AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith;
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant ardal yr awdurdod;
- pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol sy’n cael ei chynnal gan yr awdurdod;
- yr awdurdod esgobaethol priodol ar gyfer unrhyw ysgol Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig a gynhelir gan yr awdurdod;
- Comisiynydd Plant Cymru;
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (o fewn ystyr adran 1 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993);
- aelodau’r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ac eithrio aelodau a enwir mewn man arall, gan gynnwys plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a chyrff sy’n eu cynrychioli;
- unrhyw is-grŵp o’r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
- y Bartneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (o fewn ystyr adran 119 Deddf 1998);
- y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (o fewn ystyr adran 390 Deddf 1996);
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol;
- Partneriaethau Cymunedau’n Gyntaf;
- y Bartneriaeth Strategaeth Gymunedol;
- y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol;
- sefydliadau cyfrwng Cymraeg;
- y gwasanaeth Tân ac Achub;

- sefydliadau gwirfoddol perthnasol;
- cynghorau ysgol;
- fforymau ieuenctid lleol;
- Estyn; a
- thîm iechyd cyhoeddus lleol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

2.37 Hefyd, dylai awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw sefydliad neu grŵp arall y maent yn credu sy'n briodol. Argymhellir bod awdurdodau'n ystyried ymgynghori ag:

- undebau masnach perthnasol;
- grwpiau lleol sy'n cynrychioli proffesiynau a staff penodol;
- Cynghorau Iechyd Cymunedol;
- Comisiwn Iechyd Cymru;
- Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth;
- Rhwydweithiau Comisiynu CAMHS;
- grwpiau rhieni lleol e.e. Rhwydwaith Rhieni, RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon;
- cynrychiolwyr sefydliadau crefyddol, cymunedol a busnes lleol;
- sefydliadau sy'n gweithio'n lleol i ymdrin â gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, anabledd neu dueddfryd rhywiol;
- awdurdodau lleol cyfagos;
- Rhwydweithiau 14-19;
- sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol perthnasol;
- Cyngor Chwaraeon Cymru.

2.38 Dylai awdurdodau lleol ystyried yr angen i gynhyrchu fersiynau hygyrch ar gyfer y cyhoedd ac yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc drwy ddefnyddio deunyddiau (ysgrifenedig, offer clyweled) a dulliau sy'n gweddu'r pwrpas. Gall crynodeb o'r ddogfen ar gyfer darllenwyr ifanc hefyd weithredu fel fersiwn sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Dylid rhoi'r crynodeb hygyrch i'r fforwm ieuenctid lleol, cynghorau ysgol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a rhwydweithiau rhieni lleol. Mae'n rhaid sicrhau bod copïau ar gael yn electronig ac ar bapur. Dylai'r Bartneriaeth ystyried beth fyddai'r ffordd orau o greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfrannu at y broses ymgynghori. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn y Canllaw Strategaeth Cyfranogiad Lleol.

2.39 Wrth lunio a gweithredu'r Cynllun, mae angen i awdurdodau gydymffurfio â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg a'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Anabledd.

2.40 Mae'n rhaid i'r cyfnod ymgynghori bara o leiaf 12 wythnos fel y nodir yn y rheoliadau.

## Cam 4: Adolygu a Mabwysiadu

2.41 Yn sgil ymatebion i'r ymgynghoriad, mae angen i'r Cynllun gael ei adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y partneriaid. Unwaith y bo hyn wedi digwydd, ac mae'r Bartneriaeth wedi cymeradwyo'r fersiwn derfynol, mae angen i'r awdurdod lleol ei fabwysiadu'n ffurfiol fel y prif bartner. Bydd angen rhoi adborth i blant a phobl ifanc i ddangos i ba raddau y mae eu syniadau wedi eu hystyried neu beidio a'r rhesymau dros y penderfyniadau hyn.

## Cam 5: Cyhoeddi

2.42 Caiff y gofyniad cyhoeddi ei fodloni drwy roi'r cynllun ar wefan yr awdurdod yn electronig a thrwy sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd yr awdurdod ac unrhyw le priodol arall.

2.43 Dylid rhoi copïau o'r cynllun (yn electronig neu mewn copi caled) i'r rheiny y mae'n rhaid i'r Bartneriaeth ymgynghori â hwy; yn ogystal ag i bawb yr ymgynghorwyd â hwy. Dylid rhoi copi o'r cynllun i unrhyw un sy'n gofyn am un.

2.44 Dylai partneriaethau wneud yn siŵr bod fersiwn hygyrch o'r cynllun ar gael i blant a phobl ifanc drwy'r fforwm ieuenctid lleol a chynghorau ysgol, ac i unrhyw blant a phobl ifanc sydd eisiau copi.

## Cam 6: Adolygiad Blynyddol

2.45 Mae angen i awdurdodau lleol gyhoeddi adolygiad o gynnydd y Bartneriaeth wrth ddarparu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar eu gwefan erbyn 30 Hydref bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Hydref 2009. Dylai'r adolygiad gynnwys y cyfraniad a wnaeth pob partner a barn plant, pobl ifanc a theuluoedd. Dylai amseru'r adolygiad gyd-fynd â chylchoedd rheoli perfformiad ac adrodd ariannol yr awdurdod a'i bartneriaid.

2.46 Hefyd, gellir defnyddio hunan-fonitro, adolygiad perfformiad blynyddol gan gynnwys unrhyw hunan-asesu a wnaed gan

bartneriaid, y defnydd o Offer Archwilio Hunan-asesu (SAAT) NSF, data a gyhoeddwyd ar Ddangosyddion Perfformiad statudol ac adroddiadau arolygu i asesu cynnydd wrth ddarparu canlyniadau a p'un ai a yw cyd-gynllunio'n gweithio'n effeithiol. Bydd y canlyniadau'n dangos pa wasanaethau sy'n gweithio'n dda, p'un ai a oedd yr asesiad anghenion yn gywir a pha mor dda mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cael ei weithredu. Er na fydd peth data ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar gael pan fydd yr adolygiad i fod i gael ei gyflwyno, ni ddylai hyn atal asesu cynnydd drwy ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael.

2.47 Dylai'r adolygiad blynyddol gynnwys diweddariadau a newidiadau a wnaed i'r Cynllun ac unrhyw ddiwygiad o ran blaenoriaethau, targedau ac ariannu. At hyn, dylai gynnwys yr asesiad digonolrwydd gofal plant a gofynion adrodd blynyddol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn achos Nod craidd 2, rhaid ailosod y targedau bob blwyddyn.

2.48 Dylai copïau o'r adolygiad fod ar gael i bob partner sy'n cael eu cynrychioli ar y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Bydd cyfarfodydd blynyddol yn cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn seiliedig ar bob adolygiad Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

## Craffu

2.49 Mae swyddogaethau craffu awdurdodau lleol yn berthnasol i'r cynllun. Dylai pwyllgorau craffu werthuso a yw'r cynllun yn adlewyrchu anghenion cymunedau lleol, ac a yw amcanion yn cael eu bodloni; a chyflwyno eu canfyddiadau i adran weithredol neu fwrdd y cyngor. I gydnabod yr ymagwedd partneriaeth, dylai pwyllgorau trosolwg a chraffu ystyried cyfethol cynrychiolwyr sectorau a diddordebau perthnasol i ychwanegu arbenigedd at ymchwiliadau'r pwyllgor a phwysau i'w ganfyddiadau. Dylent geisio barn ystod eang o rhanddeiliaid a defnyddwyr.

## Rheoleiddio ac Arolygu

2.50 Er mwyn i'r trefniadau partneriaeth a chynllunio newydd allu gweithio'n effeithiol, mae angen i'r systemau monitro, rheoleiddio ac arolygu sy'n gweithredu ar draws asiantaethau partner gefnogi gwaith partneriaeth. Mae'r arolygiaethau a chyrff rheoleiddio perthnasol, sy'n cynnwys AGGCC, Estyn, AGIC, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu protocolau ac yn bwriadu gwneud gwaith i arolygu a gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan gynnwys y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

# 3. Cynnwys y Cynllun

3.1 Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn ddogfen strategol lefel uchel, gyda gwybodaeth ddarparu fanwl yn cael ei gadael i gefnogi'r cynlluniau gweithredol. Mae'n rhaid iddo gynnwys digon o fanylion i fodloni'r gofyniad ei fod yn gyrru cynnwys y cynllun gweithredol perthnasol. Nid oes angen llawer iawn o wybodaeth naratif. Mae angen canlyniadau blaenoriaeth, ynghyd â mesurau a thargedau lle bo'n briodol. Fel canllaw, awgrymir y dylai'r cynllun fod tua 50-70 o dudalennau o ran hyd.

3.2 Rhaid i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc gynnwys:

**A: Cyflwyniad** (Tua 5 tudalen)

- egwyddorion a gwerthoedd sy'n tanategu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc gan gynnwys yr ymrwymiad i weithredu hawliau, fel y'u mynegwyd yn y Saith Nod Craidd, a'r NSF, a'r deg hawl ar gyfer plant 11-25 oed.
- disgrifiad byr o'r broses a gymerir i ddatblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (pwyntiau allweddol yn deillio o'r asesiad anghenion ar y cyd, gan gynnwys barn plant, pobl ifanc a theuluoedd, a'r proffil gwasanaeth).

**B: Datganiad gweledigaeth** (Tua 2 dudalen)

- fel y disgrifir ym mhennod 2 - gyda blaenoriaethau allweddol y Bartneriaeth, yn croesgyfeirio at gorff y cynllun.

**C: Adran ar bob nod craidd** (Cyfanswm o tua 50 tudalen)

Mae amrediad a chynnwys nodau craidd yn amrywio ac felly bydd maint yr adran o'r Cynllun sy'n gysylltiedig â phob un hefyd yn amrywio. Dylid gosod cynlluniau yn y fformat sydd ar gael ym mhenodau 4-10 y canllaw hwn o leiaf. Dylai'r adran ar bob un gynnwys:

- Bwriadau a blaenoriaethau strategol y Bartneriaeth;
- disgrifiad o sut y bydd polisïau a strategaethau priodol y DU a Chymru gyfan a blaenoriaethau lleol yn cael eu darparu. Disgrifir agweddau perthnasol y dylid eu cwmpasu o dan bob nod craidd yn y canllaw hwn;
- cyfraniad partneriaid lleol wrth ddarparu blaenoriaethau;
- cyfraniad arfaethedig gweithgaredd a gefnogir gyda grantiau Llywodraeth y Cynulliad, fel Cymorth a'r Gronfa Ysgolion Gwell;

- mesurau perfformiad cytûn, a'r targedau ar gyfer canlyniadau blaenoriaeth, gan ddefnyddio'r templed sydd yn y penodau ar bob Nod Craidd; a
- chrynodeb dealladwy o'r gwelliant arfaethedig i ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc (wedi'i fynegi mewn termau sy'n addas i'w gynnwys mewn fersiwn sy'n hygyrch i blant, pobl ifanc a'r cyhoedd).

**D: Strategaeth Datblygu Gweithlu Lleol** (Tua 5 tudalen)

I gynnwys:

- blaenoriaethau lleol y bartneriaeth ar gyfer 2008-11; a'r
- cysylltiadau rhwng Strategaeth Datblygu Gweithlu'r Bartneriaeth a chynlluniau gweithlu partneriaid unigol.

**Papurau Ategol**

3.3 Dylai papurau ategol, i'w cyhoeddi ar wahân ond ar yr un pryd â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar wefan yr awdurdod lleol ac wedi'u hanfon mewn copi caled ar bartneriaid, gwmpasu:

- asesiad anghenion llawn (i gynnwys yr asesiad digonolrwydd gofal plant);
- proffil o'r gwasanaeth o ganlyniad i'r broses mapio;
- disgrifiad cryno o resymeg y Bartneriaeth dros benderfynu ar flaenoriaethau a gosod targedau;
- rhestr o'r rheiny sy'n ymateb i'r ymgynghoriad cynllunio;
- rhestr o'r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc, a theuluoedd a sut yr ymdriniwyd â'r rhain;
- aelodau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'i chylch gorchwyl; a
- diagram yn dangos y cyd-strwythur cynllunio lleol.

# 4. Nod Craidd 1: Y Blynyddoedd Cynnar

4.1 Nod Craidd 1 yw y dylai bod pob plentyn yn cael dechrau teg mewn bywyd a'r sail orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Erthyglau 3, 6, 29, 36). Mae'r nod craidd hwn yn berthnasol i blant rhwng 0 a 7 oed.

4.2 Mae awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn darparu rhwydwaith o wasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd a chanddynt blant ifanc. Os oes pryderon ynglŷn â lles neu ddatblygiad plentyn, bydd gwasanaethau arbenigol eraill yn camu i mewn.

4.3 Mae darpariaeth gofal iechyd ardderchog cyn ac yn ystod genedigaeth a thrwy flynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn hanfodol ar gyfer yr iechyd a datblygiad gorau posibl, fel y mae cyfleoedd chwarae a dysgu cynnar.

4.4 Mae gwerthusiadau wedi dangos y gall ymyriadau priodol yn ystod y cyfnod hwn fod ymhlith y rhai mwyaf effeithiol o ran cyfleoedd bywyd yn y dyfodol ac mae eu manteision o ran cost wedi'u profi. Mae gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, hybu iechyd/addysg dda ymhlith rheini a darparu gwybodaeth i rieni yn arbennig o bwysig.

4.5 Mae Strategaeth Gofal Plant Llywodraeth y Cynulliad, o'r enw 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant', yn amlinellu tri amcan cyd-gysylltiedig eang:

- sicrhau bod yr holl ofal plant yn cefnogi anghenion datblygu plant yng Nghymru;
- sicrhau bod gofal plant ar gael yn hawdd ac yn fforddiadwy, i alluogi rhieni i hyfforddi neu weithio ac felly codi lefelau gweithgarwch economaidd yng Nghymru;
- darparu gofal plant fel bod gan rieni hyblygrwydd a dewis o ran sut y maent yn cydbwyso eu hymrwymiadau teuluol, gwaith ac ymrwymiadau eraill yn eu bywydau, ac wrth wneud hynny, hybu cydraddoldeb rhyw o fewn y gweithlu.

4.7 Dywed y Strategaeth bod yr amcan o gefnogi datblygiad plant yn bwysicach na dim, oherwydd bod buddsoddi mewn gofal plant yn darparu buddiannau hirdymor sylweddol i'r gymdeithas. Dylid dogfennu camau i hyrwyddo gofal plant o ansawdd o fewn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Nod Craidd 1; er y dylid dangos camau penodol i hyrwyddo gweithgarwch a gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn arbennig ar gyfer plant oed ysgol o dan Nod Craidd 4.

4.8 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau fod lle mewn addysg ran-amser o ansawdd dda ar gael i bob plentyn tair oed y mae eu rhieni neu ofalwyr yn dewis hynny. Dylai'r ddarpariaeth hon fod o fewn cyrraedd i gartref y plentyn a dylid ystyried dymuniadau'r rhieni o ran darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno ar sail statudol o fis Medi 2008. Ei nod fydd rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd fel dysgwyr i bob plentyn rhwng 3-7 oed. Bydd y gwaith o'i gyflwyno fesul cam wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2011.

4.9 O dan Nod Craidd 1, dylid dangos yr holl wasanaethau strategol allweddol (gan gynnwys manylion gwasanaethau fydd yn cael eu cyd-gomisiynu), y partner(iaid) fydd yn gyfrifol, enw'r cynllun(iau) gweithredol lleol y bydd y newidiadau'n cael eu darparu trwyddynt, dyddiad cwblhau bwriedig a'r cyllid y bydd ei angen wrth yrru'r newid mewn perthynas â:

- blaenoriaethau sy'n codi o ganlyniad i'r asesiad digonolrwydd gofal plant a gynhaliwyd o dan Ddeddf Gofal Plant 2006;
- rhoi Dechrau'n Deg ar waith i gefnogi'r teuluoedd sydd dan fwyaf o anfantais;
- rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith fesul cam; a chyflawni'r ddyletswydd i ddarparu lle addysg ran-amser yn rhad ac am ddim i bob plentyn tair oed;
- cefnogaeth i rieni sy'n magu eu plant yn unol â'r Cynllun Gweithredol Rhianta, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer rhai sy'n beichiogi yn eu harddegau a rhieni yn eu harddegau a chymryd camau i hyrwyddo negeseuon peidio â tharo;
- integreiddio gwasanaethau yn gynyddol, yn seiliedig ar Ganolfannau Plant Integredig ac ymagweddau cydlynol tuag at fodloni anghenion plant a theuluoedd unigol;
- gwasanaethau cynenedigol a mamolaeth; a'r
- strategaeth bwydo ar y fron lleol.

4.10 Rhaid cwblhau'r templed ar gyfer Nod Craidd 1 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi'r mesurau canlyniad a'r targedau a fydd o gymorth i ddangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant.

| **Nod Craidd 1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cael Dechrau Teg mewn bywyd a'r sylfaen gorau posibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol | | | | |
| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc……….. | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
| 1.1 Yn iach pan gaiff ei eni a thrwy'r blynyddoedd cynnar | Cyfradd pwysau genedigol isel fesul 1000 o'r boblogaeth (ONS) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol: | | | |
| 1.2 Yn cael maeth da | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 1.3 Yn cyrraedd Cerrig Milltir Datblygiadol | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 1.4 Ag unrhyw anghenion arbennig yn cael sylw | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 1.5 Yn gwneud ymlyniadau da a diogel | % o Blant sy'n Derbyn Gofal a fabwysiadwyd (SSD A903) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

# 5. Nod Craidd 2: Cyfleoedd Addysg a Dysgu

5.1 Mae Nod Craidd 2 yn mynnu bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthyglau 3, 13, 22, 28, 29, 30; wedi'u cefnogi gan hawliau 1, 2 a 5).

5.2 Mae llwyddo i gyrraedd o leiaf lefel sylfaenol o gyrhaeddiad addysgol yn hanfodol i hapusrwydd, llwyddiant a lles unigolion. Mae mynediad at ddarpariaeth ddysgu effeithiol yn hanfodol i blant a phobl ifanc. Yr amcanion yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan mewn addysg amser llawn; bod unrhyw rwystrau ar ffordd dysgu'n cael eu nodi a'u dileu'n gynnar; eu bod yn cyrraedd eu potensial llawn; yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol ac anffurfiol pwrpasol nes eu bod yn 19 oed; a'u bod yn llwyddo i sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd.

5.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroi i sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad at addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel lle bynnag y maent yn byw, yn ogystal ag ystod o gyfleoedd dysgu anffurfiol ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Yr awdurdodau lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant sy'n bennaf gyfrifol am arwain ar y nod craidd hwn. Fodd bynnag, bydd y cynllunio, ymwneud a chefnogaeth aml-asiantaeth a ddarperir drwy'r Bartneriaeth yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau Nod Craidd 2 ar gyfer plant a phobl ifanc.

5.4 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau statudol i:

- gefnogi gwelliant ysgolion trwy fonitro, herio ac ymyrryd er mwyn hybu safonau uchel;
- hybu cynhwysiant cymdeithasol a safonau uchel trwy bolisïau ar gyfer:
  - atal ac ymdrin â bwlio;
  - amddiffyn a lles plant;
  - cefnogi presenoldeb yn yr ysgol;
  - cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion; a
  - disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig.
- darparu mynediad at addysg trwy:
  - ddarparu nifer ac ystod briodol o leoedd ysgol, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
  - darparu ar gyfer y rheiny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol;
  - buddsoddi mewn adeiladau ysgol;

- trefniadau derbyn ysgolion;
- cludiant o'r cartref i'r ysgol;
- arian ar gyfer ysgolion; a
- strategaethau mynediad i'r anabl.

- ymdrin ag anghenion disgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, fel y nodwyd yng Nghylchlythyr CCC 47 /06 ar gynhwysiant a chefnogaeth i ddisgyblion. Mae'r grwpiau'n cynnwys:
  - grwpiau lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys y rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt;
  - plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n ceisio lloches neu a chanddynt statws ffoaduriaid, a phlant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches;
  - plant gweithwyr mudol;
  - plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr;
  - disgyblion a chanddynt anawsterau dysgu dwys, cymhleth a/neu benodol (anghenion addysgol arbennig);
  - disgyblion anabl;
  - disgyblion mwy abl a thalentog;
  - disgyblion sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol;
  - disgyblion ag anghenion meddygol;
  - rhieni ifanc a merched ifanc beichiog;
  - gofalwyr ifanc;
  - plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu;
  - plant a phobl ifanc teuluoedd dan amgylchiadau anodd gan gynnwys teuluoedd troseddwyr;
  - disgyblion lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol;
  - disgyblion sydd â ffobia am fynd i'r ysgol ac sy'n gwrthod mynd i'r ysgol; a
  - disgyblion sy'n perfformio neu a gwaith ganddynt.
- darparu, cymryd rhan mewn neu sicrhau bod gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael eu cyflenwi ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed mewn partneriaeth â sefydliadau statudol eraill a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau'r 10 hawl a amlinellir yn Ymestyn Hawliau sy'n berthnasol i nod craidd 2 i bob person ifanc yng Nghymru, gan gynnwys;

- addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith sydd wedi'u teilwra at anghenion unigol ac sy'n hyrwyddo lles disgyblion;
- sgiliau sylfaenol sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol;
- cefnogaeth a chyngor ac arweiniad personol a hygyrch gan y gwasanaeth gyrfaoedd.

- ymgynghori â disgyblion ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- bodloni gofynion y System Gynllunio ac Ariannu Cenedlaethol (NPFS) o ran darparu cyfleusterau addysg a hyfforddi iawn ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed trwy ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion.

5.5 Mae sefydliadau AB yn ddarparwyr cyfleoedd addysg a dysgu pwysig yn ogystal â mynediad at amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau hamdden a diwylliannol ar gyfer pobl ifanc, yn arbennig yn yr ystod oed 16-25. Maent yn cyflawni rôl bwysig mewn ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael ag eithrio, trwy roi cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt wedi llwyddo yn yr ysgol. Dylai darparwyr AB lleol, yn ogystal â Darparwyr AU lle bo hynny'n briodol gyfrannu at y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

5.6 Wrth baratoi eu cynlluniau, mae angen i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc hefyd ystyried polisïau allweddol Llywodraeth y Cynulliad fel y'u nodir yn *'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'*. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau o 2008 a threfniadau asesu diwygiedig;
- gwella perfformiad ysgolion, yn arbennig trwy godi safonau yn yr ysgolion hynny sy'n perfformio waethaf;
- gwella trosglwyddo rhwng cyfnodau dysgu, yn arbennig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- gweithredu elfennau o Lwybrau Dysgu 14-19 fesul cam ym mhob ysgol, lleoliadau addysg bellach a dysgu sy'n seiliedig ar waith h.y. llwybrau dysgu unigol, dewis ehangach o ddewislen opsiynau, y craidd dysgu, cefnogaeth hyfforddwyr dysgu, mynediad at gefnogaeth bersonol a chyngor gyrfaoedd;
- helpu ymarferwyr i gymryd rhan yn y dysgu ac addysgu mwyaf effeithiol;
- datblygu ffocws cymunedol ar gyfer ysgolion a gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol;
- sicrhau bod pob ysgol a gynhelir yn dod yn rhan o'r Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru; a
- darparu a chomisiynu gwasanaethau cynghori mewn ysgolion.

5.7 Yn adran berthnasol y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Nod Craidd 2, dylid cynnwys pob gwasanaeth strategol allweddol (gan gynnwys manylion gwasanaethau fydd yn cael eu cyd-gomisiynu), y partner(iaid) cyfrifol, enw'r cynllun(iau) gweithredol lleol y bydd newid yn cael ei ddarparu trwyddynt, dyddiadau cwblhau arfaethedig a'r arian fydd yn cael ei ddefnyddio wrth yrru'r newidiadau i gwmpasu:

- gwella ysgolion;
- buddsoddi mewn adeiladau ysgol sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflenwi lleoedd ysgol;
- angen cymryd camau i gydweddu'r cyflenwad o leoedd ysgol â nifer y disgyblion yn yr ardal leol, gan roi ystyriaeth i ddymuniad rheini ac angen y disgybl, gan gynnwys ffafrio addysg cyfrwng Cymraeg;
- strategaethau gwrth-fwlio a strategaethau i hyrwyddo ymddygiad positif;
- presenoldeb yn yr ysgol a monitro ble mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol am ba reswm bynnag;
- cyfraniad ysgolion sy'n gweithio gyda'r heddlu, y sector iechyd a'r sector gwirfoddol at addysg iechyd, gan gynnwys mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, hybu ffyrdd o fyw iach a mynediad at gyngor a gwybodaeth gyfrinachol;
- datblygiad y ddarpariaeth 14-19 fel y'i hamlinellir yn y Cynllun Datblygu Rhwydwaith 14-19 Blynyddol;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid, a ddarperir yn unol ag Ymestyn Hawliau a'r Gwasanaethau Ieuenctid fel y nodir yn Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cymru;
- cyfrannu at waith byrddau rheoli Timau Troseddau Ieuenctid;
- asesu a darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc; a
- rhaglenni dysgu nad ydynt yn rhai ffurfiol.

5.8 Rhaid cwblhau'r Templed ar gyfer Nod Craidd 2 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi'r mesurau canlyniad a'r targedau a fydd yn dangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Nod Craidd 2**

Cael mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc yn…… | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 Cyflawni goliau dysgu cynnar | % o ddisgyblion yn cyflawni Cyfnod Allweddol 2 CSI (Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol (EDU/S/F/003/01-003)<br>(Targed Cenedlaethol: 75% erbyn 2007 80% erbyn 2010) | | | |
| | % o ddisgyblion yn cyflawni Cyfnod Allweddol 3 CSI (DPC EDU/S/F/004/01-004)<br>(Targed Cenedlaethol: 60% erbyn 2007 65% erbyn 2010) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 2.2 Cymryd rhan mewn addysg amser llawn | % y disgyblion sy’n mynychu ysgolion cynradd (EDU/007) | | | |
| | % y disgyblion sy’n mynychu ysgolion uwchradd (EDU/001)<br>(Targed Cenedlaethol: 92% erbyn 2007 60% erbyn 2010)<br>Gwaharddiadau parhaol fesul 1000 o ddisgyblion ar gyfer ysgolion uwchradd (EDU/008) | | | |
| | (Targed Cenedlaethol: 92% erbyn 2007 60% erbyn 2010) | | | |

**Nod Craidd 2** (Parhad)

Cael mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc yn…… | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | % y disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n mynychu ysgolion cynradd tra'u bod mewn gofal (SCC/022a) | | | |
| | % y disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n mynychu ysgolion uwchradd tra'u bod mewn gofal (SCC/022b) | | | |
| | % y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i waharddiadau tymor-sefydlog - (EDU/010) | | | |
| | %y troseddwyr ifanc sy'n cyflawni cosbau cymunedol mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth - (Timau Troseddau Ieuenctid) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 2.3 Cyflawni eu potensial dysgu llawn | Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul disgybl 15 oed ar gyfer pob cymhwyster a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru i wella flwyddyn ar ôl blwyddyn (EDU/011) | | | |

**Nod Craidd 2** (Parhad)

Cael mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc yn…… | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | % y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn ac ati heb gymhwyster cymeradwy (DPC (EDU/S/F/ 002/01-002( i)<br>(Targed Cenedlaethol: 0% 2010) | | | |
| | % y disgyblion sydd mewn gofal sy'n gadael addysg amser llawn ac ati heb gymhwyster cymeradwy (ALl) (EDU 002 ii) | | | |
| 2.4 Nodi a dileu rhwystrau rhag dysgu yn gynnar | % o ddatganiadau terfynol AAA a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos (EDU/015). | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 2.5 Pob disgybl a pherson ifanc (16-19) yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol ac anffurfiol pwrpasol | % y bobl ifanc 19 oedd yn derbyn gofal yn flaenorol y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy y mae'n wybyddys eu bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. (Plant yn Gyntaf SCC/033c) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

# 6. Nod Craidd 3: Iechyd, Rhyddid Rhag Trais a Chamfanteisio

6.1 Mae Nod Craidd 3 yn mynnu bod pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag trais, erledigaeth a chamfanteisio (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthyglau 3, 6, 9, 11, 13, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40; wedi'u cefnogi gan hawliau 6 a 7).

6.2 Mae'r GIG yn gyfrifol am asesu, trefnu ac ariannu ystod eang o wasanaethau i fodloni anghenion gofal iechyd hirdymor y boblogaeth gan gynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau acíwt ac arbenigol yn yr ysbyty; adsefydlu, seibiant, offer, cludiant a gofal lliniarol. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion, a dylai blaenoriaethau allweddol ar gyfer y gwasanaethau hyn ffurfio rhan o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

6.3 Mae hybu gwell iechyd, wrth leihau anghydraddoldebau, yn nod polisi pwysig i Lywodraeth y Cynulliad. Rhaid i gamau ataliol fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Mae gwaith yn dechrau ar Strategaeth Iechyd Cyhoeddus newydd ar gyfer Cymru ac mae Her Iechyd Cymru wedi codi proffil gwella iechyd a dyma ganolbwynt ymdrechion cenedlaethol i wella iechyd a lles pawb yng Nghymru. Mae cyfraniad hollbwysig i'w wneud gan wasanaethau iechyd, yn gweithio gydag ysgolion, cyrff gwirfoddol ac eraill i ddarparu addysg iechyd, gan gynnwys hybu ymddygiad iach, a chyngor ar faterion neilltuol, megis maeth a gweithgaredd, a mynediad at gyngor a gwybodaeth yn gyfrinachol.

6.4 Mae'r safon NSF 'Hybu Iechyd a Lles' yn dweud y dylai bod gan bob plentyn, person ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr fynediad at ystod o wasanaethau sy'n hybu iechyd a lles ac yn atal salwch. Trwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn yr ysgol, a thrwy Cynlluniau Ysgolion Iach: Rhwydwaith Cymru, mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i ddysgu sut i fyw bywyd iach. Dylai'r Cynllun 5 mlynedd Bwyd a Ffitrwydd (Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) a Blas am Oes sicrhau bod bwyd a diod iach ar gael mewn ysgolion; mae mwy a mwy o ysgolion cynradd yn darparu brecwast iach rhad ac am ddim.

6.5 Mae Adran 28 Deddf 2004 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol, gan gynnwys BILlau, Ymddiriedolaethau GIG, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Timau Troseddau Ieuenctid a charchardai sy'n dal plant a phobl ifanc, i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu gweithredu gan ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn eu hardal.

6.6 Ymhlith dyletswyddau awdurdodau lleol, wrth ymgymryd â’u swyddogaethau statudol o dan Ddeddfau Plant 1989 a 2004, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000, a Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 mae:

- ystyried barn plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a phobl ac asiantaethau perthnasol eraill;
- cydweithredu â Phartneriaid sy’n gweithio gyda’r plentyn;
- cychwyn achos yn y llys teulu er mwyn diogelu plant a hyrwyddo eu gofal yn y dyfodol;
- sefydlu cynllun gofal ar gyfer y plentyn neu berson ifanc sy’n bodloni eu hanghenion emosiynol, corfforol ac addysgiadol ac sy’n sicrhau arolwg annibynnol o’r cynllun;
- sicrhau bod trefniadau’n cael eu gwneud a bod gwasanaethau’n hygyrch ar gyfer cwynion ac eiriolaeth;
- cynorthwyo plant i fyw gyda’u teuluoedd a’u ffrindiau ac yn eu cymunedau;
- cael llinell aelod corfforaethol ac etholedig â chyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc;
- darparu llety ar gyfer plant nad ydynt yn gallu byw gyda’u teuluoedd ac yn eu cymunedau;
- cadw cofrestr o blant sydd mewn perygl niwed; yn anabl neu sy’n derbyn gofal.
- wrth gynllunio, darparu a chomisiynu ystod o wasanaethau, sicrhau bod:
  - anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu;
  - esgeulustra a chamdriniaeth yn cael eu hatal;
  - cefnogaeth deuluol yn cael ei chynnig;
  - llety’n cael ei ddarparu lle bo’n briodol (gofal maeth a gofal preswyl);
  - plant anabl a’u teuluoedd yn cael cymorth, gan gynnwys gyda gofal seibiant; a
  - gofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi.
- darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc i gynorthwyo’r trosglwyddo i fyw’n annibynnol, gan gynnwys:
  - gadael gwasanaethau gofal;
  - cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed mewn angen; a
  - gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl.

6.7 O ran diogelu, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau statudol:

- i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd mewn angen o fewn eu hardal, a chyn belled ag y bo'n gyson â'r ddyletswydd honno, hyrwyddo teuluoedd plant o'r fath i'w magu, drwy ddarparu ystod a lefel o wasanaethau sy'n briodol i anghenion y plant hynny;
- i wneud gymaint o ymholiadau ag y maent yn credu sy'n angenrheidiol i benderfynu a ddylent gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn pan fyddant yn cael gwybod bod plentyn sy'n byw, neu a ganfyddir yn eu hardal:
  - yn destun gorchymyn amddiffyn brys; neu
  - yn cael ei amddiffyn gan yr heddlu; neu
  - mae ganddynt reswm rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw yn eu hardal, neu a ganfuwyd yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.
- i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau i blant mewn angen, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a'r rheiny sydd mewn llety diogel;
- i sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn eu hardal; ac
- i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu a ddyluniwyd i fodloni anghenion plant allai gael eu mabwysiadu, eu rhieni a'u gwarchodwyr, pobl sydd eisiau mabwysiadu plentyn a phobl sydd wedi'u mabwysiadu, eu rhieni, eu rhieni naturiol a chyn warchodwyr.

6.8 Yn adran berthnasol y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Nod Craidd 3, disgwylir y bydd pob gwasanaeth strategol allweddol (gan gynnwys manylion gwasanaethau fydd yn cael eu cyd-gomisiynu), y partner(iaid) cyfrifol, enw'r cynllun(iau) gweithredol lleol y bydd y newid yn cael ei gyflawni drwyddynt, dyddiad cwblhau arfaethedig a'r arian y bydd ei angen i yrru newid yn cael eu cynnwys. Dylid cynnwys elfennau allweddol strategaethau lleol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- iechyd, gofal cymdeithasol a lles plant a phobl ifanc;
- y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a sut y bydd gwahanol bartneriaid yn cyfrannu;
- rhoi Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd Bwyd a Ffitrwydd (Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) ar waith yn lleol gan gynnwys cysylltiadau â gweithgareddau o dan nod craidd 4.

- Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;
- gwasanaethau camddefnyddio sylweddau;
- darpariaeth iechyd rhywiol;
- cyngor a gwybodaeth iechyd gan gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymorth ieuenctid trwy hawl 9; a
- plant a phobl ifanc y mae eu rhieni'n gwahanu, gan gynnwys y rheini mewn teuluoedd o droseddwyr. - bydd bron un o bob pedwar plentyn yn gweld eu rhieni'n gwahanu yn ystod eu bywydau a gall hyn gael effaith ofnadwy ar ganlyniadau iddynt.

6.9 Rhaid cwblhau'r templed ar gyfer Nod Craidd 3 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi'r mesurau canlyniad a'r targedau a fydd yn dangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Nod Craidd 3**

Mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, heb gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio

| Canlyniad | Mesur Canlyniad | Perfformiad presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 Bod gan bob plentyn a pherson ifanc ffordd o fyw iach: | | | | |
| 3.1.1 Yn iach | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 3.1.2 Yn mabwysiadu ymddygiad rhywiol iach | Beichiogi yn yr arddegau <16, (ONS) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 3.1.3 Â mynediad at wasanaethau arbenigol | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 3.2 Yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio: | % yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth bod:<br>a) y plentyn wedi cael ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol<br>b) y plentyn wedi'i weld ar ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol (SCC/011) | | | |

**Nod Craidd 3** (Parhad)

Mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, heb gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio

| Canlyniad | Mesur Canlyniad | Perfformiad presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | a) Canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 7 diwrnod gwaith;<br>b) Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau'r asesiadau cychwynnol a gymerodd fwy na 7 diwrnod gwaith i'w cwblhau. (SCC/008) | | | |
| | a) Canran yr asesiadau craidd gofynnol a gynhaliwyd o fewn 35 diwrnod gwaith<br>b) Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau'r asesiadau craidd gofynnol hynny a gymerodd fwy na 35 diwrnod (SCC/009) | | | |

**Nod Craidd 3** (Parhad)

Mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, heb gamdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio

| Canlyniad | Mesur Canlyniad | Perfformiad presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | a) Canran yr achosion agored lle bo gan blant weithiwr cymdeithasol penodol ym mhob un o'r grwpiau a ganlyn;<br><br>b) Canran yr achosion agored lle bo plant wedi'u neilltuo i rywun ar wahân i weithiwr cymdeithasol lle bo'r plentyn yn derbyn gwasanaeth ym mhob un o'r grwpiau a ganlyn;<br><br>i) Plant ar y gofrestr amddiffyn plant<br><br>ii) Plant sy'n derbyn gofal<br><br>iii) Plant mewn angen (SCC/013) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

# 7. Nod Craidd 4: Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant

7.1 Mae Nod Craidd 4 yn mynnu bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthyglau 15, 31, yn cael eu cefnogi gan hawliau 8 a 9).

7.2 Er mwyn sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl dylai bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Bydd ystod o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau hamdden awdurdodau lleol; Canolfannau Plant Integredig, gwasanaethau cymorth ieuenctid a sefydliadau gwirfoddol, yn darparu gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol i blant a phobl ifanc ar draws Cymru.

7.3 Dylai awdurdodau lleol gynllunio gyda'u partneriaid i ddarparu neu sicrhau cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Dylai gwasanaethau cymorth ieuenctid roi'r hawl i bobl ifanc allu cyrchu cyfleoedd hamdden a chymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, cerddoriaeth a'r celfyddydau hygyrch.

7.4 Mae Polisi Chwarae (2002) a'r Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae (2006) cysylltiedig yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad a chamau ymarferol i hyrwyddo chwarae. Mae'r polisi'n cydnabod bod effaith cymdeithas fodern ar fywydau plant wedi cyfyngu ar eu cyfle i chwarae'n rhydd yn sylweddol ac mae hyn wedi arwain at dlodi o ran cyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd cyffredinol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroi i annog creu darpariaethau chwarae 'cydbwyso' o ansawdd uchel sy'n briodol, yn lleol, yn gyffrous a heriol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno gweld mwy o gyfleoedd chwarae antur wedi'u staffio sy'n darparu amgylchedd chwarae cyfoethog i blant i wneud yn iawn am y diffyg lleoedd agored naturiol. Mae angen cynnwys ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys er enghraifft adrannau cynllunio a thrafnidiaeth awdurdodau lleol, mewn cefnogi hawl plant a phobl ifanc i chwarae er mwyn sicrhau bod lleoedd agored a mannau chwarae yn cael eu darparu a'u bod yn hygyrch trwy gludiant cyhoeddus fforddiadwy.

7.5 Dylai chwarae gynnwys pob plentyn; ni ddylid eithrio unrhyw un am resymau gallu, iaith, hil neu ryw.

7.6 Mae *Dringo'n Uwch: Camau Nesaf* yn amlinellu'r camau i'w cymryd i annog pob plentyn a pherson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol ac i gefnogi'r athletwyr mwyaf talentog.

7.7 Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl statudol i sgiliau chwaraeon a chreadigol yn yr ysgol, sy’n cael ei amlinellu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

7.8 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell a’r grymoedd i ddarparu gwasanaeth amgueddfa lleol. Ar gyfer llyfrgelloedd, dylai Partneriaethau roi ystyriaeth i Safonau Llyfrau Cyhoeddus CyMAL, ac at y Fframwaith Annog Addysg ar gyfer amgueddfeydd.

7.9 Dylai adran berthnasol y Cynllun o dan Nod Craidd 4, nodi’r gwasanaethau strategol allweddol (gan gynnwys manylion gwasanaethau fydd yn cael eu cyd-gomisiynu), y partner(iaid) cyfrifol, enw’r cynllun(iau) gweithredol lleol y bydd y newid yn cael ei ddarparu trwyddynt, dyddiad cwblhau bwriedig a’r arian y bydd ei angen i yrru newidiadau. Dylid cwmpasu’r canlynol:

- strategaethau chwarae, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer chwarae antur wedi’i staffio;
- cyfleoedd hamdden a chwaraeon;
- gofal plant a chynlluniau chwarae gwyliau, tu allan i oriau ysgol;
- camau i hyrwyddo gweithgaredd arall tu allan i oriau ysgol;
- cyfraniad mentrau Campau’r Ddraig ac AG mewn Ysgolion;
- cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol gan gynnwys darpariaeth amgueddfeydd;
- mynediad at gludiant;
- profiadau hamdden, chwaraeon, celfyddydol a diwylliannol priodol trwy wasanaethau cymorth ieuenctid sy’n rhoi’r hawl i:
    - weithgareddau hamdden a chymdeithasol;
    - profiadau mewn chwaraeon, a phrofiadau artistig, cerddorol ac awyr agored; a
    - chymryd rhan mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol;
- llwybrau cerdded a beicio i’r ysgol a mannau chwarae sy’n integreiddio’n briodol ac yn ddiogel ac nad ydynt yn gwrthdaro â mathau eraill o gludiant.

7.10 Rhaid cwblhau’r templed ar gyfer Nod Craidd 4 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi’r mesurau canlyniad a’r targedau a fydd yn helpu i ddangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Nod Craidd 4**

Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob Plentyn a Pherson Ifanc…….. | Mesur Canlyniad | Perfformiad presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 Yn cymryd rhan mewn chwarae sy'n addas i'w hoed | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 4.2 Yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, hamdden a diwylliannol | % plant 7-11 ac 11-16 oed yn ymweld â chanolfannau hamdden: amlder yr ymweliadau (Cyngor Chwaraeon Cymru)<br>% plant 7-11 ac 11-16 yn cymryd rhan mewn chwaraeon all-gwricwlaidd (Cyngor Chwaraeon Cymru)<br>Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 4.3 Yn gallu cyrraedd eu potensial | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |

# 8. Nod Craidd 5: Cymryd Rhan Mewn Gwneud Penderfyniadau

8.1 Mae Nod Craidd 5 yn mynnu bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwrandawiad, eu trin â pharch ac y cydnabyddir eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthyglau 12, 13, 14, 15, 21, 22, 30 yn cael eu cefnogi gan hawliau 3 a 10).

8.2 Gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai Cymru fod yn lle ble caiff plant a phobl ifanc eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned y mae eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried ar draws yr ystod o bolisïau a wneir. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i yrru hyn ymlaen mewn perthynas â'i weithgareddau ei hun sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl 0-25 oed neu'n gysylltiedig â hwy ac yn nhermau gweithgarwch sefydliadau eraill y mae'n eu hariannu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu'r disgrifiad hwn mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc.

*"Ystyr cyfranogiad yw bod hawl gennyf fod yn rhan o wneud penderfyniadau neu o gynllunio ac adolygu unrhyw weithred allai effeithio arna i. Bod â llais, bod â dewis."*

8.3 Dywed *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau* 'bod rhaid i blant a phobl ifanc allu dylanwadu ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n effeithio arnynt' fel egwyddor allweddol. Mae Gweithredoedd Allweddol Cyffredinol NSF 2.1-2.3 yn disgrifio cyfranogiad plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth ddatblygu safonau gwasanaeth.

8.4 Mae'r Consortiwm Cyfranogiad wedi datblygu cyfres o Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad. Mae systemau nodi ansawdd yn cael eu datblygu i gefnogi'r safonau. Mae'r safonau wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n disgwyl i bawb sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc weithio tuag atynt. Mae angen ffyrdd creadigol o gynnwys plant a phobl ifanc o bob cefndir i sicrhau dialog effeithiol. Mae'r safonau'n darparu ffordd o arolygu ac asesu arferion cyfranogiad.

8.5 Dylai Partneriaethau sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn natblygiad, cynllunio a gwerthuso gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Gellir cyflawni hyn trwy gysylltiadau â chynghorau ysgol, strwythurau cyfranogol fel fforymau ieuenctid lleol, cynghorau ysgol, y Ddraig Ffynci (Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru) a rhwydweithiau rhieni lleol. Dylid ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'n briodol.

8.6 Dylai rhestr o faterion a godwyd gan blant a phobl ifanc a theuluoedd wrth ddatblygu'r Cynllun a'r ffordd y mae'r cynllun yn ymdrin â hwy gael ei gyhoeddi'n electronig fel dogfennaeth ategol.

8.7 Er mwyn bodloni'r anghenion sy'n ymhlyg yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn llawn ac i sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau, mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn gallu cwyno pan fydd pethau'n mynd o'i le a bod y materion hyn yn derbyn sylw. Dylai partneriaid sicrhau bod ganddynt system gwyno ar waith y gall plant a phobl ifanc ei defnyddio.

8.8 Mae angen i blant a phobl ifanc allu cyrchu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol o ansawdd i'w cefnogi i fwrw ymlaen gyda chwynion. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ddatblygu darpariaeth o'r fath ac wedi cynnal ymgynghoriad ar fodel integredig ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, i'w gomisiynu trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu datblygu ochr yn ochr â threfniadau cyfranogi lleol. Dylai Partneriaethau arwain ar gynllunio a chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn eu hardal ac amlinellu trefniadau ar gyfer gwneud hyn yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu ddiwedd  2007.

8.9 Yn yr adran o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Nod Craidd 5, disgwylir i bob gwasanaeth strategol allweddol gael eu hamlinellu, gan gynnwys manylion gwasanaethau fydd yn cael eu cyd-gomisiynu, y partner(iaid) cyfrifol, enw'r cynllun(iau) gweithredol lleol y byddant yn cael eu darparu trwyddynt, amserlenni arfaethedig a'r arian fydd yn cael ei ddefnyddio. Dylid cynnwys elfennau allweddol o'r canlynol:

- trefniadau cyfranogi a rôl partneriaid, gan gynnwys mesurau i sicrhau cynhwysiant (Canllaw Strategaeth Cyfranogiad Lleol); a
- threfniadau cwyno ac eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

8.10 Rhaid cwblhau'r templed ar gyfer Nod Craidd 5 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi'r mesurau canlyniad a'r targedau a fydd yn helpu i ddangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Nod Craidd 5**

Bod plant yn cael gwrandawiad, eu bod yn cael eu trin â pharch a bod eu chwarae a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob Plentyn a Pherson Ifanc.... | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 Yn cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ystyrlon ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau | Eiriolaeth Annibynnol (NSF 2.6) ar gael yn rhwydd | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 5.2 Gwybod am eu hawliau a sut i'w cael | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 5.3 Yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu fel aelod o gymdeithas | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 5.4 Yn gallu mynegi eu hunaniaeth ddiwylliannol a'u hil yn rhydd | Plant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaethau yn rhan o'u hadolygu yn eu dewis iaith (NSF 2.2) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

# 9. Nod Craidd 6: Cartref Diogel a Chymuned Ddiogel

9.1 Dywed Nod Craidd 6 y dylai pob plentyn ac unigolyn ifanc fod â chartref diogel a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol. (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthyglau 9, 11, 16, 23, 33). Mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â gwasanaethau o dan nod craidd 3 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau partneriaid dros ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc unigol; a chamau o dan nod craidd 2 i ddelio ag ymddygiad gwael yn yr ysgol, yn cynnwys bwlio.

9.2 Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn hwyluso gwasanaethau allweddol i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag trosedd ac effeithiau ymddygiad troseddol. Mae dyletswydd ar yr awdurdodau cyfrifol (awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r heddlu a byrddau iechyd lleol) o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, i weithio gydag asiantaethau a sefydliadau lleol eraill ar ddatblygu a gweithredu strategaethau i ddelio â throsedd ac anrhefn yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ôl y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau cyfrifol gyfrannu at, ffurfio a gweithredu Cynllun Cyfiawnder yr Ifanc a Chynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau.

9.3 Rhaid i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant gydweithio'n agos er mwyn galluogi achosion perthnasol yn ymwneud ag amddiffyn plant a chamddefnyddio sylweddau i gael eu cyfeirio ac yn fwy cyffredinol, i sicrhau cydgysylltiad wrth asesu a chefnogi.

9.4 Rhaid amddiffyn a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n dyst neu sy'n dioddef cam-drin domestig yn ddigonol. Mae dogfen Llywodraeth y Cynulliad, *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan- Dull Cydasiantaethol o Weithredu* yn pwysleisio bod cam-drin domestig yn cael effaith ddifrodus ar blant, sy'n dioddef ei effeithiau naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n arwain wrth gyflawni'r Strategaeth ond er mwyn i'w gwaith fod yn effeithiol, rhaid iddynt gydweithio'n agos ag asiantaethau statudol a gwirfoddol.

9.5 Mae lleihau troseddu ymysg pobl ifanc a gwella'r system cyfiawnder yr ifanc wrth wraidd creu cymunedau mwy diogel. Y Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc, timau troseddau ieuenctid a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am nodi anghenion y rhai sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu - dau grŵp arbennig o agored i niwed.

9.6 Er mwyn mynd ar drywydd Nod Craidd 6, mae angen i Bartneriaethau ymgysylltu â gwaith strategol asiantaethau cyfiawnder yr ifanc. Dylai hyn sicrhau bod Cynlluniau Cyfiawnder

yr Ifanc a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cyd-dynnu er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu, neu mewn perygl o ddioddef trosedd yn eu herbyn. Mae angen i Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc weithio gyda'r Timau Troseddau Ieuenctid i sefydlu trefniadau a fydd yn atal pobl ifanc rhag troseddu a chefnogi'r rhai hynny sydd wedi rhoi trefn ar eu bywydau i'w hatal rhag aildroseddu.

9.7 Mae'r Strategaeth Dai Genedlaethol "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" yn cynnwys y weledigaeth glir: "Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy sydd o ansawdd da; a gallu dewis lle maent yn byw a phenderfynu ai prynu neu rentu ydy'r opsiwn gorau iddynt hwy a'u teuluoedd". Mae'r strategaeth yn llywio amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys datblygu strategaethau lleol cyffredinol, strategaethau digartrefedd lleol ac amrywiaeth o gamau i ddarparu tai fforddiadwy a gwella ansawdd tai.

9.8 Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth o gyfrifoldebau statudol ym maes tai, yn cynnwys asesu anghenion tai yn eu hardal. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau i sicrhau llety ar gyfer grwpiau sydd ag anghenion blaenoriaeth sy'n ddigartref yn anfwriadol ac sydd â chysylltiad â'r ardal. Ymysg y grwpiau ag anghenion blaenoriaeth mae teuluoedd digartref gyda phlant dibynnol, rhai sy'n gadael gofal a'r rhai hynny o dan 21 oed y mae perygl y bydd rhywrai'n camfanteisio arnynt yn ariannol neu'n rhywiol a phob unigolyn ifanc o dan 18 oed.

9.9 Yn yr adran berthnasol o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Nod Craidd 6, dylid cynnwys yr holl wasanaethau strategol allweddol, a manylion y gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd, y partner(iaid) cyfrifol, enw'r cynllun(iau) gweithredol lleol y cyflwynir newid trwyddynt, amserlenni arfaethedig a'r arian sydd ei angen ar gyfer sbarduno newid. Dylid ymdrin â'r cysylltiadau ag elfennau allweddol y strategaethau lleol canlynol:

- gwaith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gyda phlant a phobl ifanc;
- cynlluniau Cyfiawnder yr Ifanc a phlismona, fel y maent yn effeithio ar blant a phobl ifanc;
- y Strategaeth Dai Leol, fel y mae'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd; a
- mesurau sy'n ceisio atal neu leihau damweiniau i blant a phobl ifanc.

9.10 Rhaid cwblhau'r templed ar gyfer Nod Craidd 6 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi'r mesurau canlyniad a'r targedau a fydd yn helpu i ddangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Nod Craidd 6**

Bod â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc.... | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 6.1 Yn ddiogel rhag Trosedd ac effeithiau Trosedd | Nifer y plant a phobl ifanc 10-17 oed sy'n ymuno â'r system cyfiawnder yr ifanc gyda cherydd neu uwch (BCI) | | | |
| | Amlder a difrifoldeb aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc 10-17 oed sydd eisoes o fewn system cyfiawnder yr ifanc (BCI) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |
| 6.2 Yn ddiogel rhag niwed a marwolaeth yn deillio o ddamweiniau y gellir eu hosgoi | Cyfradd anafiadau i blant sy'n cerdded (Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

**Nod Craidd 6** (Parhad)

Bod â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol

| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc…. | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 6.3 Yn ddiogel rhag llygredd amgylcheddol | Mesurau Canlyniad Lleol | | | |
| 6.4 Yn byw mewn cartref gweddus | % y bobl ifanc a arferai fod mewn gofal y mae'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â hwy y gwyddys eu bod mewn llety addas heb fod yn llety brys yn 19 oed (ALl) (SCC033b) | | | |
| | Nifer y teuluoedd gyda phlant dibynnol sy'n byw mewn llety dros dro (ALl WHO12) | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

# 10. Nod Craidd 7: Heb Fod Dan Anfantais Oherwydd Tlodi

10.1 Yn ôl Nod Craidd 7 ni ddylai unrhyw blentyn nac unigolyn ifanc fod dan anfantais oherwydd tlodi (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthyglau 26, 27).

10.2 Er bod dileu tlodi ymhlith plant yn nod craidd ynddo'i hun, er mwyn delio ag ef yn llwyddiannus mae angen gweithredu i ddelio â'r mater o dan yr holl nodau craidd. I'r perwyl hwnnw, a chan gydnabod nad yw tlodi yn ymwneud yn unig ag incwm, mae Strategaeth Tlodi Ymhlith Plant Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio'n eang ar agweddau allweddol tlodi a chynhwysiant cymdeithasol sy'n tanseilio gallu plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a chyflawni eu potensial yn llawn. Nodir tair prif agwedd ar dlodi ymhlith plant - tlodi incwm; tlodi cyfranogi a thlodi gwasanaethau.

10.3 Mae'r Cynllun Gweithredu Tlodi Plant (2006) yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau trawsbynciol er mwyn dileu tlodi ymhlith plant. Mae'r papur cysylltiedig, 'Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant' yn cynnwys cerrig milltir 2010 a thargedau 2020 er mwyn monitro cynnydd wrth gael gwared ar dlodi ymhlith plant.

10.4 Yn nhermau tlodi incwm, mae polisïau llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth y Cynulliad yn allweddol bwysig o ran aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, mae gan bartneriaid lleol gyfraniad pwysig i'w wneud at wella lles economaidd plant a phobl ifanc drwy weithgareddau datblygu ac adfywio, a chefnogaeth wrth ddychwelyd i'r gwaith a chyngor ar fudd-daliadau/dyledion i'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae partneriaid lleol yn chwarae rhan allweddol wrth ddileu elfennau sy'n rhwystro cyflogaeth, er enghraifft, drwy ddarparu gofal plant a thrafnidiaeth. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu prosiect dwy flynedd dan arweiniad Achub y Plant a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o dlodi ymhlith plant a delio â'r mater yn lleol.

10.5 Mae gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ran allweddol wrth ddatblygu camau lleol i ddelio â thlodi ymhlith plant drwy ddarparu tai, iechyd, trafnidiaeth a gwasanaethau addysg hygyrch o safon uchel; a thrwy ddileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan ym mywyd y gymuned. Dylai'r adran ar Nod Craidd 7 yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ddwyn ynghyd neu groesgyfeirio at gamau yn yr adrannau ar y nodau craidd eraill yn y cynllun, a gynlluniwyd i gael effaith arbennig ar dlodi ymhlith plant.

10.6 Rhaid cwblhau'r templed ar gyfer Nod Craidd 7 yn ychwanegol at y naratif ar y Nod Craidd yma drwy grynhoi'r mesurau canlyniad a'r targedau a fydd yn helpu i ddangos effaith gwasanaethau ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

| Nod Craidd 7 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nad yw Tlodi Ymhlith Plant yn eu rhoi dan anfantais | | | | |
| Canlyniad Blaenoriaeth<br>Bod pob plentyn a pherson ifanc…. | Mesur Canlyniad | Perfformiad Presennol (blwyddyn olaf o ddata a ddilyswyd) | Targedau Lleol | Cyfrifoldeb |
| 7.1 Yn rhydd o dlodi oherwydd incwm isel | % y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith<br>(Arolwg o'r Llafurlu)<br>(Targed Cenedlaethol: 13.5% erbyn 2010/11)<br><br>% y rhieni unigol mewn cyflogaeth (Arolwg o'r Llafurlu)<br>(Targed Cenedlaethol: cyfradd gyflogaeth o 70% erbyn 2016*)<br>Y ddau fesur i fod ar gael ar lefel leol erbyn diwedd 2007 | | | |
| | Mesurau Canlyniad Lleol Ychwanegol | | | |

# Pennod 11: Cynllunio'r Gweithlu

## Cyflwyniad

11.1 Mae gweithlu proffesiynol a hyfforddwyd yn dda yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau o safon. Mae'r agenda a nodwyd yn *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*, gyda'i phwyslais cynyddol ar ddarparu gwasanaethau integredig, yn golygu bod angen gweithwyr proffesiynol sy'n gwerthfawrogi cyfraniad ei gilydd ac yn gallu deall iaith ei gilydd. Mae yna hefyd brinder o rai gweithwyr proffesiynol allweddol. Felly mae angen i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ddisgrifio sut y bwriedir mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gweithlu.

11.2 Mae Rhwydwaith Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc, a drefnwyd gan Gyngor Gofal Cymru, yn datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu plant a phobl ifanc yng Nghymru, a fydd yn destun ymgynghori. Ar ôl ei gwblhau, bydd yn sylfaen ar gyfer yr adrannau o'r Cynllun sy'n ymwneud â'r gweithlu, ynghyd â datblygu'r gweithlu ar gyfer gweithwyr ieuenctid, athrawon, darlithwyr, cynghorwyr gyrfaoedd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gweithwyr tai a grwpiau proffesiynol eraill. Ond mae'r gweithlu mor hanfodol bwysig fel bod angen i bartneriaethau dechrau ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu fel rhan o rownd gyntaf y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

## Cwmpas yr Adran ar y Gweithlu

11.3 Ni ddylai'r adran o'r cynllun sy'n ymdrin â'r gweithlu fod wedi'i chyfyngu i'r sector statudol, ond dylai gwmpasu'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat, yn cynnwys y llu o ddarparwyr, a gofalwyr hunangyflogedig a gwirfoddolwyr ymysg y gweithlu plant a phobl ifanc. Dyma'r unig ffordd y gellir cael dull unedig priodol sy'n osgoi cystadlu, gan helpu neb. Mae'r dull gweithredu hwn eisoes wedi llwyddo ym maes gofal cymdeithasol. Mae Partneriaethau Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, yn cwmpasu darparwyr gofal cymdeithasol gwirfoddol, preifat a chyhoeddus yn ogystal â darparwyr addysg a hyfforddiant pellach ac uwch, eisoes ar waith ym mhob ardal awdurdod lleol. Dylai'r cynllun gweithredu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc adeiladu ar y trefniadau hyn.

11.4 Ymhen amser, bydd angen i'r adran o'r Cynllun sy'n ymdrin â'r gweithlu ddarparu trosolwg o'r gweithlu lleol yn ôl math, nifer a lleoliad, a thynnu sylw at feysydd lle ceir anhawster recriwtio neu gadw staff, gofalwyr hunangyflogedig a gwirfoddolwyr. I gyd-fynd â hyn ceir dadansoddiad o'r rhesymau, megis prinder sgiliau cyffredinol neu amodau a thâl lleol, ynghyd â chamau i'w cymryd i ddelio â'r problemau. Yn 2003 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad (AGCC)

ddogfen ar gynllunio'r gweithlu, 'Cynllunio ar gyfer Hyfforddi a Datblygu Staff' a dderbyniwyd gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Roedd yn cynnwys arfau datblygu'r gweithlu a addaswyd gan lawer o awdurdodau i'w defnyddio gan yr holl wasanaethau, yn cynnwys cyrff annibynnol a gwirfoddol. Efallai y bydd partneriaethau yn dymuno ystyried hyn fel model.

11.5 Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae prinder data a phrinder yr offer i'w gasglu. Yn wir, bydd cynllunio'r gweithlu ar y cyd yn weithgaredd newydd i'r rhan fwyaf o bartneriaethau er bod yma gyfle i adeiladu ar yr arbenigedd a ddatblygwyd gan Bartneriaethau Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, yn enwedig ynghylch rhannu data a gwybodaeth a threfniadau arloesol ar gyfer hyfforddi ar y cyd i ddiwallu angen lleol.

11.6 Felly dylai partneriaethau bennu nifer fach o flaenoriaethau ar gyfer eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc cyntaf. Mae'r dadansoddiadau o anghenion a gwasanaethau (Pennod 2) yn darparu'r sylfaen ar gyfer nodi sut y cytunir ar y blaenoriaethau hyn. Dylid craffu ar yr holl ddatblygiadau arfaethedig o dan y Nodau Craidd er mwyn nodi materion yn ymwneud â'r gweithlu.

11.7 Mae angen i bartneriaethau ymdrin â materion megis goblygiadau gwasanaethau newydd neu estynedig ar y farchnad lafur, y sgiliau sydd eu hangen, a'r angen am hyfforddiant. Gall hyfforddi ar y cyd fod yn ddull defnyddiol i wahanol broffesiynau ddod i ddeall safbwyntiau'r naill a'r llall yn well.

11.8 Fel gydag agweddau eraill o'r cynllun, dylid datgan yr amcanion mesuradwy mewn modd cynhwysfawr, a nodi amserlenni a chyfrifoldebau eglur.

## Darparwyr Hyfforddiant

11.9 Bydd angen i bartneriaethau gysylltu â sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr hyfforddiant a swyddfeydd rhanbarthol Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau bod eu cynigion yn ymarferol.

## Blaenoriaethau

11.10 Wrth bennu eu blaenoriaethau, mae'n debyg y bydd angen i bartneriaethau gynnwys o leiaf rai o'r canlynol yng ngoleuni datblygiadau polisi cyfredol:

- gweithwyr cymdeithasol i blant;

- gofalwyr maeth;
- staff gyda chymwysterau mewn blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae i gyflawni'r Strategaeth Gofal Plant, y Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae, elfen gofal plant Dechrau'n Deg, a'r Cyfnod Sylfaen;
- staff i gyflawni agweddau eraill Dechrau'n Deg, yn cynnwys ymwelwyr iechyd a gweithwyr cefnogi rhianta;
- cynghorwyr hyfforddedig ar gyfer gwasanaethau cynghori mewn ysgolion;
- darparwyr eiriolaeth;
- hyfforddwyr dysgu ar gyfer darpariaeth Llwybrau 14-19;
- gweithwyr ieuenctid;
- staff sy'n gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cynghorwyr gyrfaoedd;
- athrawon, yn cynnwys cynorthwywyr dysgu; ac
- ymarferwyr cyfiawnder yr ifanc.

## Amrywiaeth

11.11 Dylai partneriaethau ystyried i ba raddau y mae'r gweithlu lleol yn adlewyrchu cyfansoddiad ethnig ac ieithyddol y gymuned leol a defnyddwyr gwasanaeth, a nodi blaenoriaethau ar gyfer delio â'r mater os nad ydynt yn cyd-fynd.

## Rheoli Newid

11.12 ylid nodi'r cyfrifoldebau am fynd ag agweddau o'r adran ar y gweithlu yn y Cynllun yn eu blaenau, ynghyd â syniad o'r amserlen weithredu.

## Gofynion o ran Adnoddau a Chyfleoedd i Gyfuno Adnoddau

11.13 Dylai'r adran o'r Cynllun sy'n ymdrin â'r gweithlu nodi lle gallai cyfuno arian, ar gyfer recriwtio neu hyfforddi ar y cyd yn yr achos hwn, gefnogi gweithio integredig. Nid yw gweithredu dull integredig o ddelio â materion yn ymwneud â'r gweithlu yn golygu bod angen llawer o adnoddau ychwanegol, o angenrheidrwydd. Gellid defnyddio'r arian a ddarperir ar gyfer gwaith partneriaeth drwy'r cynllun Cymorth i dalu'r costau sydd ynghlwm wrth ddatblygu'r strategaeth.

# Atodiad 1: Camau Cynllunio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | **Asesu Anghenion a llunio Proffil o'r Gwasanaeth**<br>1. Casglu'r holl ddata, gwybodaeth ac ymchwil perthnasol, ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid a dadansoddi'n ofalus er mwyn llunio asesiad o anghenion<br>2. Mapio'r holl wasanaethau a gafodd eu dwyn ynghyd er mwyn llunio proffil o'r gwasanaeth<br>3. Nodi cyfleoedd i integreiddio a chomisiynu ar y cyd i'w hystyried ymhellach |
| **Cam 2** | **Datblygu'r Strategaeth**<br>1. Cytuno ar y weledigaeth<br>2. Cytuno, o dan bob nod craidd, ar newidiadau a chytuno pryd y caiff cyllidebau eu cyfuno a gwasanaethau eu comisiynu ar y cyd<br>3. Pennu targedau lleol ar sail gofynion cenedlaethol a lleol a chytuno ar fesurau canlyniad<br>4. Asiantaethau partner, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i nodi pwy sy'n bennaf gyfrifol a'r cynllun neu'r rhaglen weithredu ar gyfer cyflwyno gwelliannau a newidiadau<br>5. Cytuno ar Gynllun Datblygu'r Gweithlu |
| **Cam 3** | **Ymgynghori**<br>Y bartneriaeth yn cymeradwyo'r cynllun drafft ac yn arwain y broses o ymgynghori â'r holl bartneriaid a Llywodraeth y Cynulliad (o leiaf 12 wythnos) |
| **Cam 4** | **Diwygio a Mabwysiadu**<br>1. Diwygio'r Cynllun yn sgil ymgynghori. Y bartneriaeth yn cymeradwyo'r drafft terfynol<br>2. Partneriaid yn ei gymeradwyo<br>3. Yr awdurdod lleol, fel y partner arweiniol, yn ei gymeradwyo<br>4. Cyfieithu, paratoi fersiwn ar gyfer y cyhoedd, argraffu |
| **Cam 5** | **Cyhoeddi**<br>Dosbarthu'r cynllun |
| **Cam 6** | **Adolygiad Blynyddol**<br>Adolygu cynnydd ar sail y cynllun |

# Atodiad 2 - Deddf Plant 2004: Adrannau 25-28

**25 Cydweithrediad i wella lles: Cymru**

(1) Rhaid i bob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng:

(a) yr awdurdod;

(b) pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod; a'r

(c) cyfryw bersonau neu gyrff eraill yr ystyrir gan yr awdurdod eu bod yn briodol, boed yn bersonau neu'n gyrff o unrhyw natur sy'n gweithredu swyddogaethau neu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mewn perthynas â phlant o fewn ardal yr awdurdod.

(2) Gwneir y trefniadau gyda'r bwriad o wella lles plant yn ardal yr awdurdod o ran:

(a) iechyd corfforol a meddwl a lles emosiynol;

(b) diogelu rhag niwed ac esgeulustod;

(c) addysg, hyfforddiant a hamdden;

(d) y cyfraniad a wneir i gymdeithas ganddynt;

(e) lles cymdeithasol ac economaidd.

(3) Wrth wneud trefniadau o dan yr adran hon, dylai awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru ystyried pwysigrwydd rheini a phersonau eraill sy'n gofalu am blant wrth wella lles plant.

(4) At ddibenion yr adran hon, mae pob un o'r canlynol yn bartner perthnasol awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru:

(a) awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod gwasanaethau plant;

(b) bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

(c) tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

(ch) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod;

(d) ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau o fewn ardal yr awdurdod;

(dd) y Cynulliad, i'r fath raddau ei fod yn cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

(5) Rhaid i bartneriaid perthnasol awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru gydweithio â'r awdurdod wrth wneud y trefniadau o dan yr adran hon.

(6) Gall awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru ac unrhyw rai o'i bartneriaid perthnasol, at ddibenion trefniadau o dan yr adran hon:

   (a) ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill;

   (b) sefydlu a chynnal cronfa gyfun.

(7) At ddibenion isadran, (6) mae cronfa gyfun yn gronfa:

   (a) a ffurfir o gyfraniadau gan yr awdurdod a'r partner neu bartneriaid perthnasol dan sylw; ac

   (b) y dylid gwneud taliadau allan ohoni tuag at wariant wrth gyflawni swyddogaethau'r awdurdod a swyddogaethau'r partner neu'r partneriaid perthnasol.

(8) Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru a phob un o'i bartneriaid perthnasol ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan y Cynulliad wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon.

(9) Rhaid i'r Cynulliad gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn rhoi canllawiau o dan isadran (8) ar unrhyw amser ar ôl i unrhyw rai o baragraffau (a) i (c) yn isadran (4) ddod i rym.

(10) Gall trefniadau o dan yr adran hon gynnwys trefniadau o ran:

   (a) pobl 18 ac 19 oed;

   (b) pobl dros 19 oed sy'n derbyn:

      (i) gwasanaethau o dan adrannau 23C i 24D o Ddeddf Plant 1989 (c. 41);

      (ii) gwasanaethau cymorth ieuenctid (o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (c. 21)).

**26 Cynlluniau plant a phobl ifanc: Cymru**

(1) Gall y Cynulliad, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun o bryd i'w gilydd yn nodi strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phersonau ifanc perthnasol.

(2) Gall rheoliadau o dan yr adran hon ddarparu ar gyfer:

(a) y materion yr ymdrinnir â hwy mewn cynllun o dan yr adran hon;

(b) y cyfnod y dylai cynllun o dan yr adran hon gyfeirio ato;

(c) pryd a sut y dylid cyhoeddi cynllun o dan yr adran hon;

(ch) adolygu cynllun o dan yr adran hon yn barhaus;

(d) ymgynghoriad i'w gynnal cyn y cyhoeddir cynllun o dan yr adran hon;

(dd) gweithredu cynllun o dan yr adran hon.

(3) Mae'r materion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer o dan yr isadran (2)(a) yn cynnwys y canlynol yn arbennig:

(a) y trefniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud o dan adran 25 gan awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru;

(b) y strategaeth neu'r cynigion mewn perthynas â phlant a phersonau ifanc perthnasol o unrhyw berson neu gorff y mae awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru yn gwneud neu'n cynnig gwneud trefniadau o'r fath gyda hwy.

(4) Gall rheoliadau o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru gael cymeradwyaeth y Cynulliad cyn cyhoeddi cynllun o dan yr adran hon, a gall olygu y gall y Cynulliad addasu cynllun cyn ei gymeradwyo.

(5) Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru ystyried unrhyw gynlluniau a roddir iddynt gan y Cynulliad mewn perthynas â sut y dylent gyflawni eu swyddogaethau o dan y rheoliadau yn yr adran hon.

(6) Yn yr adran hon mae "personau ifanc perthnasol" yn golygu personau, yn ogystal â phlant, y gellir gwneud trefniadau o dan adran 25 mewn perthynas â hwy.

**27 Cyfrifoldeb ar gyfer swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26**

(1) Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru:

(a) benodi swyddog a elwir yn "gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", at ddibenion cydgysylltu a goruchwylio trefniadau a wneir o dan adrannau 25 a 26; a

(b) dynodi un o'u haelodau, i'w adnabod fel "aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", i fod yn gyfrifol am weithredu swyddogaethau'r awdurdod o dan yr adrannau hynny.

(2) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol:

(a) benodi swyddog, a elwir yn "swyddog arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc" y Bwrdd, at ddibenion swyddogaethau'r Bwrdd o dan adrannau 25; a

(b) dynodi un o aelodau'r Bwrdd nad yw'n swyddog fel ei "aelod arweiniol".

(3) Rhaid i ymddiriedolaeth y GIG y mae adran 25 yn berthnasol iddi:

(a) benodi cyfarwyddwr gweithredol, a elwir yn "gyfarwyddwr gweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc", yr ymddiriedolaeth at ddibenion swyddogaethau'r ymddiriedolaeth o dan yr adran honno; a

(b) dynodi un o gyfarwyddwyr anweithredol yr ymddiriedolaeth fel ei "gyfarwyddwr anweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc" i fod yn gyfrifol am weithredu'r swyddogaethau hynny fel ei ofal arbennig.

(4) Rhaid i bob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaeth y GIG y mae adran 25 yn berthnasol iddynt ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan y Cynulliad mewn perthynas â:

(a) eu swyddogaethau o dan yr adran hon;

(b) cyfrifoldebau'r personau a benodir neu a ddynodir ganddynt o dan yr adran hon.

**28 Trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles : Cymru**

(1) Mae'r adran hon yn berthnasol i bob un o'r canlynol:

(a) awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol;

(c) ymddiriedolaeth y GIG y mae pob un neu'r rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau wedi'u leoli yng Nghymru;

(ch) awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;

(d) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain o ran gweithredu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru;

(dd) bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal yng Nghymru;

(e) tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal yng Nghymru;

(f) llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi diogel wedi'i eithrio, ei gyfarwyddwr);

(ff) unrhyw berson cyn belled â'i fod yn darparu'r gwasanaethau yn unol â threfniadau a wnaed gan awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru o dan adran 123(1)(b) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (c. 21) (gwasanaethau cymorth ieuenctid).

(2) Rhaid i bob person a chorff y mae'r adran hon yn berthnasol iddynt wneud trefniadau ar gyfer sicrhau:

(a) y gweithredir eu swyddogaethau o ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant; ac

(b) y darperir unrhyw wasanaethau a ddarperir gan berson arall yn unol â threfniadau a wnaed gan y person neu'r corff wrth weithredu eu swyddogaethau gan ystyried yr angen hwnnw.

(3) Yn achos awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru, nid yw'r cyfeiriad yn isadran (2) at swyddogaethau'r awdurdod yn cynnwys swyddogaethau y mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (c. 32) yn berthnasol iddynt.

(4) Gall personau a chyrff y cyfeirir atynt yn isadrannau (1)(a) i (c) ac (i) ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan y Cynulliad at y diben hwnnw wrth weithredu eu swyddogaethau o dan yr adran hon.

(5) Gall y personau a chyrff y cyfeirir atynt yn isadran (1)(ch) i (f) ystyried unrhyw ganllawiau a gânt gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ôl ymgynghori â'r Cynulliad at y diben hwnnw wrth weithredu eu swyddogaethu o dan yr adran hon.

# Atodiad 3 Rheoliadau

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2316 (Cy.187)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod pob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru yn paratoi cynllun plant a phobl ifanc, yn ymgynghori yn ei gylch, ac yn ei gyhoeddi a'i adolygu. Rhaid i gynllun o'r fath ddatgan strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau o ran plant a phersonau ifanc. Nid yw cynnwys y cynllun yn cael ei ragnodi gan y Rheoliadau, ond bydd yn cael ei benderfynu gan yr awdurdod gan roi sylw i ganllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

Bydd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn disodli’r Cynllun Addysg Sengl yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ei baratoi a’i gyhoeddi o dan Reoliadau’r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006 (OS 2006/877). Nid yw’r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau’r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006 am nad oes dyletswydd sy’n parhau i gyhoeddi Cynllun Addysg Sengl ar ôl cyhoeddi’r cyfryw gynllun ar 1 Medi 2006 ar gyfer y cyfnod sy’n dod i ben ar 31 Awst 2008.

Mae Rheoliadau 4 a 5 yn darparu ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau bob tair blynedd. Bydd y cynllun cyntaf mewn grym o 1 Awst 2008 ymlaen ac yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi 2008.

Mae Rheoliad 6 yn darparu ar gyfer y modd y bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi; mae Rheoliad 7 yn darparu ar gyfer ymgynghori ynglŷn â'r cynllun drafft; ac mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer adolygiad blynyddol o'r cynllun gan yr awdurdod, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori pellach.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 2316 (Cy.187)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *4 Awst 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Awst 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 26 a 66(1) o Ddeddf Plant 2004(**1**), ac sydd bellach wedi eu rhoi iddynt hwy (**2**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007, a deuant i rym ar 1 Medi 2007.

(2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongliad**

**2.**Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “awdurdod” (“*authority*”) yw awdurdod gwasanaethau plant;

ystyr “awdurdod esgobaethol priodol” (“*appropriate diocesan authority*”), o ran un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig, yw—

(i) y Bwrdd Cyllid Esgobaethol, neu berson arall sydd wedi ei ddynodi gan Gynulliad

---

(**1**) 2004 p.31

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu rhoi i Weinidogion Cymru gan weithrediad adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

Cenedlaethol Cymru o dan adran 142 (1) o Ddeddf 1998 (yn ôl y digwydd), ar gyfer pob esgobaeth o’r Eglwys yng Nghymru, a

(ii) esgob pob esgobaeth o’r Eglwys Gatholig,

y mae unrhyw ran o'i hardal (yn y ddau achos) yn gorwedd oddi mewn i ardal yr awdurdod;

ystyr “Cynllun Plant a Phobl Ifanc” (“*Children and Young People’s Plan*”) yw'r cynllun y cyfeirir ato yn rheoliad 3 (2);

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**);

ystyr “Deddf 2004” (“*the 2004 Act*”) yw Deddf Plant 2004;

ystyr "Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc” (“*Children and Young People’s Partnership*”) yw'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod, pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod, a phersonau neu gyrff eraill sy'n arfer swyddogaethau neu'n ymwneud â gweithgareddau o ran plant a phobl ifanc yn ardal yr awdurdod;

mae i “partneriaid perthnasol” (“*relevant partners*”) yr un ystyr ag a roddir iddo yn adran 25 o Ddeddf 2004;

mae i “personau ifanc perthnasol” (“*relevant young persons*”) yr un ystyr ag a roddir iddo yn adran 26 (6) o Ddeddf 2004;

mae i “ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol" (“*school maintained by a local education authority*”) (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at ysgol a gynhelir gan awdurdod penodol) yr ystyr a roddir iddo gan adran 142 (1) o Ddeddf 1998.

mae i “ysgol yr Eglwys Gatholig" (“*Roman Catholic Church school*”) yr ystyr a roddir iddo gan adran 142 (1) o Ddeddf 1998;

mae i "ysgol yr Eglwys yng Nghymru" (“*Church in Wales school*”) yr ystyr a roddir iddo gan adran 142 (1) o Ddeddf 1998;

**Y gofyniad i baratoi a chyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc**

**3.—**(1) Rhaid i bob awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr “Cynllun Plant a Phobl Ifanc” yw cynllun o'r math y cyfeirir ato yn adran 26 (1) o Ddeddf 2004, yn datgan strategaeth yr awdurdod

(**1**) 1998 p.31

ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau o ran plant ac o ran personau ifanc perthnasol.

### Cyfnod y cynllun

**4.**—(1) Bydd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc cyntaf yn cael effaith am y cyfnod sy'n cychwyn ar 1 Awst 2008 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011.

(2) Bydd yr ail Gynllun Plant a Phobl Ifanc, a'r rhai dilynol, yn cael effaith am y cyfnod o dair blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill yn y flwyddyn pan fydd cyfnod y cynllun blaenorol yn dod i ben.

### Amseriad cyhoeddi'r cynllun

**5.**—(1) Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc cyntaf ar neu cyn 30 Medi 2008.

(2) Rhaid cyhoeddi'r ail Gynllun Plant a Phobl Ifanc, a'r rhai dilynol, ar neu cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn pan fydd cyfnod y cynllun dan sylw'n cychwyn yn unol â rheoliad 4 (2).

### Y dull o gyhoeddi'r cynllun

**6.** Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drwy—

(a) ei osod ar wefan yr awdurdod;

(b) trefnu bod copïau o'r cynllun ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd—

 (i) yn swyddfeydd yr awdurdod; a

 (ii) mewn unrhyw fan priodol arall.

### Ymgynghoriad

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi'r ymgynghoriad y mae'n ofynnol ar bob awdurdod i'w gynnal wrth lunio'u Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

(2) Rhaid ymgynghori â'r canlynol ynglŷn â'r cynllun pan fydd hwnnw ar ei ffurf ddrafft—

(a) pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod;

(b) y Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ardal yr awdurdod;

(c) Gweinidogion Cymru;

(ch) pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;

(d) prifathro pob coleg addysg bellach yn ardal yr awdurdod;

(dd) yr awdurdod esgobaethol priodol ar gyfer unrhyw un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgolion yr Eglwys Gatholig a gynhelir gan yr awdurdod;

(e) Comisiynydd Plant Cymru

(f) Bwrdd yr Iaith Gymraeg (yn yr ystyr a roddir i'r term hwnnw yn adran 1 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**));

(ff) yr awdurdod cynllunio lleol (o fewn ystyr adran 1(1B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**));

(g) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Ngymru;

(ng) aelodau o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, heblaw'r aelodau y mae gofyn ymgynghori â hwy yn unol â'r rheoliad hwn, gan gynnwys plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a chyrff sydd yn eu cynrychioli;

(h) unrhyw is-grŵp o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;

(i) y Bartneriaeth Leol Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (yn yr ystyr a roddir i'r term hwnnw yn adran 119 o Ddeddf 1998);

(j) y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (yn yr ystyr a roddir i'r term hwnnw yn adran 390 o Ddeddf Addysg 1996(**3**));

(l) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol os oes rhai'n bodoli yn ardal yr awdurdod;

(ll) Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf os oes rhai'n bodoli yn ardal yr awdurdod;

(m) y Bartneriaeth Strategaeth Gymunedol os oes un yn bodoli yn ardal yr awdurdod;

(n) y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles os oes un yn bodoli yn ardal yr awdurdod;

(o) y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol os oes un yn bodoli yn ardal yr awdurdod;

(p) cyrff sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg;

(ph) y Gwasanaeth Tân ac Achub;

(r) tîm iechyd cyhoeddus lleol y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol;

(rh) darparwyr Addysg Bellach a darparwyr dysg sydd wedi eu lleoli yn y gweithle;

(s) Cynghorau ysgol;

(t) Fforymau ieuenctid lleol;

(th) Estyn;

(u) cyrff gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc;

---

(**1**) 1993 p.38
(**2**) 1990 p.8
(**3**) 1996 p.56

(w) pa bynnag bersonau neu gyrff eraill sy’n ymddangos yn rhai priodol ym marn yr awdurdod.

(3) Yn achos y cyrff y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (ff) i (th) o baragraff (2), dim ond cyrff sy'n gwasanaethu ardal gyfan yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni, yr ymgynghorir â hwy.

(4) Rhaid i'r awdurdod ymgynghori ynglŷn â'r cynllun drafft am gyfnod o ddim llai na deuddeng wythnos.

(5) Rhaid i'r awdurdod gynnal yr ymgynghoriad drwy anfon drafft o’r cynllun at bob ymgynghorai, gan wahodd sylwadaethau arno o fewn cyfnod penodedig.

(6) Gellir bodloni'r gofyniad ym mharagraff (5) i anfon drafft o'r cynllun at yr ymgynghoreion drwy anfon copïau drwy bost electronig.

**Adolygu'r cynllun**

**8.**—(1) Rhaid i'r awdurdod adolygu eu Cynllun Plant a Phobl Ifanc erbyn 30 Hydref bob blwyddyn, gan gychwyn yn 2009.

(2) Wrth gynnal adolygiad o'r fath, rhaid i'r awdurdod ymgynghori â pha bynnag bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy, gan roi sylw i’r canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (5) o Ddeddf 2004.

(3) Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad, mewn modd sy'n briodol yn eu barn hwy, gan roi sylw i’r canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (5) o Ddeddf 2004.

*Jane E. Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Awst 2007

# Atodiad 4 Geirfa

## Adolygiad

Ymchwiliad eang ei gwmpas sy'n ceisio gweld p'un ai yw amcanion rhaglen neu bolisi eu hunain yn dal i fod yn ddilys. Gall adolygiadau fod wedi'u dylunio i ganolbwyntio ar raglen neu bolisi unigol, ar sail thema (e.e. cynlluniau grant, cynhwysiant cymdeithasol, ac ati), neu ar rôl sefydliad.

## Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABaCh)

Rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl sydd wedi cofrestru mewn ysgol a gynhelir ac sydd o oed ysgol gorfodol. Mae ABaCh yn cynnwys popeth y mae ysgol neu goleg yn ei wneud i gefnogi a hybu datblygiad a lles personol a chymdeithasol ei dysgwyr. Cyfrifoldeb yr ysgolion yw cyflwyno rhaglen ABaCh eang a chytbwys i fodloni anghenion penodol y dysgwyr. Wrth adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABaCh gyfredol ar gyfer plant rhwng 7 a 19 oed, dylai ysgolion ystyried y Fframwaith ABaCh a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Anghenion

Y problemau economaidd gymdeithasol y mae ymyriad yn ceisio mynd i'r afael â hwy, wedi'u mynegi o safbwynt ei boblogaeth darged. Er enghraifft, yr angen i wella cyfleoedd gwaith ar gyfer y di-waith tymor hir allai fod yn dioddef o ddiffyg sgiliau perthnasol.

## Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu (gweler y diffiniad) sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

## Anghenion cymhleth

Mae gan blentyn neu berson ifanc anghenion cymhleth os oes arnynt angen gwasanaethau dau neu fwy o asiantaethau, heb gynnwys y gwasanaethau cyffredinol y mae pob plentyn yn eu derbyn.

## Anhawster dysgu

Mae Anhawster dysgu yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw un o nifer o rwystrau i ddysgu y gall plentyn eu hwynebu. Gall plant ag anawsterau dysgu ei chael hi'n arbennig o anodd gwneud gweithgareddau sy'n cynnwys meddwl a deall, ac mae nifer angen cefnogaeth yn eu bywydau bob dydd yn ogystal ag yn yr ysgol. Gall y term cyffredinol hwn gynnwys ystod eang o anghenion a phroblemau, gan gynnwys dyslecsia a phroblemau ymddygiadol. Diffinnir plentyn sydd ag anhawster dysgu o'r fath hefyd fel plentyn ag anghenion addysgol arbennig.

Er mai 'anhawster dysgu' yw'r term a ddewisir o fewn y byd addysg, defnyddir y term 'anabledd dysgu' yn gyffredin hefyd, yn arbennig gan y gwasanaethau iechyd a rhai sefydliadau'r sector gwirfoddol wrth gyfeirio at oedolion. Mae rhai pobl yn defnyddio'r ddau derm am yn ail i olygu'r un peth.

## Amcanion

Effeithiau dymunol ymyriad.

## Ariannu ar y cyd

Un o amcanion hirdymor cynllunio cymunedol yw dyraniad mwy cyd-drefnus o adnoddau tuag at anghenion cymunedau. Gallai hyn, dros amser, arwain at gyfuno cyllidebau ac adnoddau ar gyfer prosiectau unigol, yn ogystal â darparu gwasanaethau sy'n fwy integredig.

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae AGGCC yn isadran ar wahân, sy'n gweithredu o fewn Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae uned rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau AGGCC yn gyfrifol am reoleiddio dros 6,000 o wasanaethau, gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae uned arolygu ac adolygu awdurdodau lleol AGGCC yn hyrwyddo gwelliant drwy werthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae unedau dadansoddi a gwella gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion AGGCC yn hyrwyddo arferion da ac yn datblygu'r gwasanaethau sy'n ymwneud â gofal a gwasanaethau cymdeithasol, ac yn cynnig cyngor proffesiynol mewn perthynas â'r materion hyn.

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Sefydlwyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar 1 Ebrill 2004 a'i diben yw hyrwyddo gwelliant parhaus yn ansawdd a diogelwch gofal cleifion o fewn GIG Cymru. Er mwyn cyflawni'r diben hwn, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i'r ddarpariaeth gofal a noddir gan y GIG, un ai gan sefydliadau GIG yng Nghymru neu iddynt.

## Asesiad digonolrwydd gofal plant

Mae'r asesiad hwn yn fesur o natur a maint yr angen am ofal plant ym mhob ardal leol, a'r hyn a gyflenwir.

## Asesiad effaith

Mae effaith yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio sut y mae rhaglen yn effeithio ar gymdeithas. Gall effeithiau fod yn gadarnhaol neu'n negyddol ac yn rhagweledig neu'n annisgwyl. Gelwir effeithiau cychwynnol yn *ganlyniadau*, tra gelwir effeithiau tymor hwy yn *ganlyniadau hirdymor*. Mae asesiad effaith yn asesu effaith gyffredinol dymor hwy rhaglen.

## Asesiad o anghenion ar y cyd - gweler asesiad o anghenion/dadansoddiad o anghenion

## Asesiad o anghenion/dadansoddiad o anghenion

Anghenion yw'r problemau economaidd gymdeithasol y mae ymyriad yn ceisio mynd i'r afael â hwy, wedi'u mynegi o safbwynt ei boblogaeth darged. Er enghraifft, yr angen i wella cyfleoedd gwaith ar gyfer y di-waith tymor hir allai fod yn dioddef o ddiffyg sgiliau perthnasol.

## Astudiaeth o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC)

Astudiaeth ymchwil draws-genedlaethol a gynhaliwyd ar y cyd â Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd yn Ewrop, gyda 41 o wledydd/ranbarthau ledled Ewrop a Gogledd America yn cymryd rhan yn 2005/06. Nod yr astudiaeth yw cael golwg newydd ar iechyd a lles ac ymddygiadau iechyd pobl ifanc, a'u cyd-destun cymdeithasol, a dod i'w deall yn well. Defnyddir canfyddiadau arolygon HBSC i hysbysu a dylanwadu ar bolisïau ac arferion hybu iechyd ac addysg iechyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## Atal

Defnyddir y term hwn i ddisgrifio gwasanaethau neu strategaethau sydd â'r bwriad o atal problemau rhag codi.

## Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (BCI) yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol gyda 112 o aelodau'r bwrdd wedi'u penodi ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd. Mae'r BCI yn goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, gan weithio er atal troseddu ac aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc dan 18 oed. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi dan warchodaeth ddiogel ac yn mynd i'r afael ag achosion ymddygiad troseddol. Mae'r BCI yn adrodd ar berfformiad y system cyfiawnder ieuenctid i Ysgrifennydd Cartref y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd drwy'r cynlluniau cyfiawnder ieuenctid a gyflwynir gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) a thrwy gasglu data perfformiad. Mae'r BCI yng Nghymru hefyd yn cynnull y Pwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid gyda Llywodraeth y Cynulliad.

## Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Ar lefel leol, cyd-gysylltir gwaith asiantaethau'r System Gyfiawnder Troseddol gan Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Byrddau hyn yn dod â phrif swyddogion asiantaethau'r System Gyfiawnder Troseddol ynghyd i gydgysylltu gweithgareddau a rhannu cyfrifoldeb am gyflwyno cyfiawnder troseddol yn eu hardaloedd. Mae tri ohonynt yng Nghymru:  Gogledd Cymru, Dyfed Powys a De Cymru.

## Byrddau Gwasanaethau Lleol

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol i gytuno ar set o gamau blaenoriaethol a'u darparu. Mynegwyd y camau hyn mewn Cytundeb Gwasanaeth Lleol a lofnodwyd gan y partneriaid a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac maent yn mynd i'r afael â chanlyniadau gwasanaeth allweddol ar gyfer y gymuned leol. Y Bwrdd yw'r tîm arweinyddiaeth lleol, sy'n cynnwys aelodau etholedig, penodedig, gweithredol ac anweithredol yr awdurdodau statudol, y sectorau gwirfoddol a phreifat a rhanddeiliaid allweddol

eraill. Maent yn gweithio fel partneriaid cyfartal ac yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am gysylltu'r rhwydwaith cyfan o wasanaethau cyhoeddus mewn ardal.

## Byrddau Iechyd Lleol (BILlau)

Sefydlwyd y 22 Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ar y 1af o Ebrill 2003 yn dilyn dileu'r 5 Awdurdod Iechyd Lleol, ac mae eu ffiniau'n cyd-derfynu â ffiniau'r Awdurdod Lleol. Prif gyfrifoldebau BILlau yw asesu anghenion iechyd eu poblogaeth a bodloni'r anghenion hynny drwy sicrhau gwasanaethau iechyd.

## Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP)

Disodlodd Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant yng Nghymru ar y 1af o Hydref 2006. Diffiniodd Deddf Plant 2004 amcanion y BLlDP fel a ganlyn:

- cydlynu'r hyn a wneir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd er diben diogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod a'i sefydlodd; a
- sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob un o'r bobl neu'r cyrff hynny er y dibenion hyn.

## Cam-drin (corfforol)

Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn mewn unrhyw ffordd arall. Gellir achosi niwed corfforol hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n peri salwch mewn plentyn y maent yn gofalu amdano/i.

## Cam-drin (emosiynol)

Trin plentyn yn gyson wael yn emosiynol gan arwain at effeithiau niweidiol difrifol a pharhaol ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn.

## Cam-drin (esgeuluso)

Esgeuluso plentyn yn gyson neu'n ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerfel, newyn neu fethiant eithafol i gyflawni agweddau pwysig ar ofal, lle bo hyn yn arwain at amhariad sylweddol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn, gan gynnwys diffyg ffyniant anorganig.

## Cam-drin (rhywiol)

Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:

- cyffyrddiad corfforol, gan gynnwys gweithgareddau treiddiol neu anhreiddiol;
- gweithgareddau digyffwrdd, megis cynnwys plant mewn gwylio, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol; neu
- annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

## Canlyniadau/Mesurau Canlyniadau

Yr effaith tymor hwy, a fynegir fel arfer yn nhermau canlyniadau economaidd gymdeithasol eang, y gellir ei briodoli i ymyriad (e.e. gostyngiad yn y nifer o bobl ddi-waith tymor hir).

## Comisiynu ar y cyd

Trefniadau i un neu fwy o asiantaethau neu gyrff (statudol neu annibynnol) gomisiynu gwasanaeth neu wasanaethau ar gyfer unigolyn neu grŵp cleientiaid.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Mae'r UNCRC yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n dwyn ynghyd hawliau plant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Cafodd ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989, a'i gadarnhau gan y DU ar 16 Rhagfyr 1991. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Hawliau'r Confensiwn fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, ac ar eu cyfer. Mae pob un o'i Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi'u seilio ar Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig.

## Cyfnod Sylfaen

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ddull newydd o ymdrin â chyfleoedd dysgu plant rhwng 3 a 7 oed. Mae'n cyfuno Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol a Chyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y Cyfnod Sylfaen yn cychwyn cael ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2008 gyda phlant rhwng 3 a 5 oed.

## Cyfranogiad

Diffiniwyd cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru fel a ganlyn: "Golyga 'cyfranogiad' bod gen i hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu unrhyw gamau allai effeithio arnaf. Cael llais, cael dewis."

## Cynghorau Iechyd Cymuned

Mae dyletswydd statudol ar Gynghorau Iechyd Cymuned i adolygu gweithrediad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr ardal leol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella i'r cyrff iechyd perthnasol.

## Cynghorau ysgolion

Grŵp cynrychiadol o ddisgyblion yw cyngor ysgol, a etholwyd gan eu cyfoedion i drafod materion sy'n ymwneud â'u haddysg ac i leisio pryderon gydag uwch reolwyr a llywodraethwyr eu hysgol. Mae gofyniad cyfreithiol wedi bod ar bob ysgol gynradd (ar wahân i ysgolion meithrin a babanod), uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru i gael cyngor ysgol ers 1 Tachwedd 2006.

## Cyngor Gwirfoddol Sirol

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cynrychioli ac yn hyrwyddo'r sector gwirfoddol o fewn eu hardal Awdurdod Lleol.

## Comisiynu

Yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae comisiynu'n cyfeirio at y broses o sicrhau gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion. Mae'n cynnwys clustnodi anghenion, asesu ymatebion a chyflenwyr posibl, cytuno ar faint, ansawdd a chost y gwasanaeth a rheoli a gwerthuso ei effaith.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r Comisiynydd yn gweithio fel eiriolwr annibynnol dros blant a phobl ifanc yng Nghymru, a'i brif nod yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc Cymru. Gall y Comisiynydd adolygu'r modd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.childcomwales.org.uk

## Consortiwm Cyfranogiad/ Uned Cyfranogiad

Mae'r Consortiwm Cyfranogiad yn cynnwys sefydliadau sector statudol a gwirfoddol sydd wedi ymrwymo i sicrhau y mewnosodir arferion cyfranogol ledled y sectorau hyn yng Nghymru. Mae aelodau'r Consortiwm yn rhannu syniadau ac arferion da o ran cyfranogiad, ac wedi datblygu set o egwyddorion a safonau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Sefydlwyd yr Uned Cyfranogiad i ddatblygu'r gwaith hwn. Cynhelir y Consortiwm a'r Uned gan Save the Children Cymru, ac fe'u hariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cymorth

Cynllun Grant Llywodraeth y Cynulliad sy'n ariannu ymyriadau ataliol sy'n hyrwyddo datblygiad corfforol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig, ar sail cynlluniau a gyflwynir bob blwyddyn gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae Cymorth hefyd yn darparu llawer o'r refeniw ar gyfer rhaglen o ganolfannau integredig ym mhob ardal awdurdod lleol.

## Cynhwysiant cymdeithasol

Mae Cyfiawnder Cymdeithasol wrth wraidd amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dyma'r egwyddor bod gan bawb hawl i set sylfaenol o hawliau dynol, safonau triniaeth a lefel o les materol, ni waeth beth fo'u safle economaidd, dosbarth, rhyw, ethnigrwydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, ymlyniad crefyddol, iechyd ac ati.

## Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid

Mae gofyn i fyrddau rheoli Timau Troseddau Ieuenctid (YOT) oruchwylio paratoad Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid dan adran 40 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yw prif ddogfen byrddau rheoli'r Timau Troseddu Ieuenctid ar gyfer nodi sut y byddant yn cyflwyno yn erbyn Fframwaith Rheoli Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid. Dyluniwyd y cynlluniau i fod yn offer cynllunio buddiol ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid, ond maent hefyd yn darparu gwybodaeth fuddiol a chymaradwy i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynglŷn â gweithgareddau Timau Troseddau Ieuenctid. Cyhoeddir arweiniad i gynlluniau cyfiawnder ieuenctid gan y Bwrdd Cyfiawnder

Ieuenctid ac mae'n cynnwys yr angen i groesgyfeirio i'r saith nod craidd ac i Bartneriaethau Pobl Ifanc. Mae'r arweiniad yn cael ei adolygu ar gyfer 2008 ymlaen, a bydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru yng ngoleuni gofynion cynllunio perthnasol y Cynulliad yn ogystal â'r rheiny sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol.

## Cynllun Datblygu Lleol

Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru a fydd yn cael ei archwilio'n annibynnol.

## Cynlluniau Datblygu Lleol

Yn ôl Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gamu oddi wrth yr hen fath o gynlluniau a elwir yn Gynlluniau Datblygu Unedol (CDU) a'u disodli â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu llunio ar Gynlluniau Datblygu Lleol ac adolygiad llawn bob pedair blynedd.

## Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Llwybrau Dysgu 14-19

Grwpiau o sefydliadau strategol, darparwyr dysgu a dysgwyr o fewn ardal awdurdod lleol yw Rhwydweithiau 14-19. Maent yn sicrhau ystod o raglenni a chefnogaeth angenrheidiol er mwyn gwneud yn siŵr y gall dysgwyr gael gafael ar holl elfennau Llwybrau Dysgu rhwng 14 a 19 oed. Mae pob un wedi cynhyrchu Cynllun Datblygu Rhwydwaith.

## Cynnyrch/Mesurau cynhyrchion

Y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir gan ymyriad (e.e. cyrsiau hyfforddi ar gyfer pobl ddi-waith tymor hir).

## Darpariaeth gwasanaeth cyffredinol

Darpariaeth y mae gan bawb hawl iddi yn ôl y gyfraith, megis darpariaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac addysg orfodol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 oed.

## Datblygiad Cynaliadwy

Mae Datblygiad Cynaliadwy'n ymwneud â sicrhau y gall popeth a wnawn gael ei gynnal yn y dyfodol, yn enwedig sicrhau lles a gwell ansawdd bywyd i bawb yn awr ac am genedlaethau i ddod: mae'n golygu cynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae hefyd yn golygu ystyried effeithiau y tu hwnt i'r ardal leol a sicrhau y caiff dimensiynau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd datblygiad eu hintegreiddio'n llawn.

## Datblygu Polisïau

Set o weithgareddau yw polisïau, allai fod yn wahanol o ran math a bod â gwahanol fuddiolwyr uniongyrchol, wedi'u cyfeirio tuag at amcanion cyffredinol cyffredin. Nid amffinir polisïau o ran amser, amserlen na chyllideb. Llunio polisïau yw'r broses a ddefnyddir gan lywodraethau i drosi eu gweledigaeth wleidyddol yn rhaglenni a gweithgareddau i gyflawni 'canlyniadau' - newidiadau dymunol yn y byd go iawn. Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yw: "cytundeb neu gonsensws ar y materion, y nodau a'r amcanion y mae angen mynd i'r afael â hwy, y blaenoriaethau ymysg yr amcanion hynny a'r prif gyfeiriadau ar gyfer eu cyflawni."

## Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn grant penodol i awdurdodau lleol, a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006-07 ac sy'n rhedeg tan flwyddyn ariannol 2010 - 2011 yn y lle cyntaf. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant 0 i 3 oed yn y meysydd y mae'n ymwneud â hwy.

## Dinasyddiaeth weithredol

Cymryd rôl weithgar mewn cymdeithas ac yn y gymuned leol. Mae dinasyddiaeth weithredol yn ymwneud ag ymrwymiad a chyfranogiad. Mae dinasyddion gweithredol yn awyddus, yn gymwys ac yn gallu dylanwadu ar fywyd cyhoeddus. Mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, mae dinasyddiaeth weithredol hefyd yn cyfeirio at y cyfleoedd dysgu hynny sy'n cymhwyso plant a phobl ifanc â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau i ddod yn ddinasyddion gweithredol.

## Diogelu

Term cymharol newydd sy'n ehangach nag "amddiffyn plant" gan ei fod hefyd yn cynnwys atal. Diffinnir diogelu fel a ganlyn:

- Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, atal unrhyw amhariad i'w hiechyd neu ddatblygiad a sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol, er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd bywyd gorau posibl.
- Bod pob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y lleiheir y peryglon o niwed i les plant; a
- Lle bo pryderon ynglŷn â lles plant a phobl ifanc, bod yr holl asiantaethau'n cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, gan weithio yn ôl polisïau a gweithdrefnau a gytunwyd yn lleol mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill.

## DP Statudol

Mesurau mesuradwy yw Dangosyddion Perfformiad (DP) a ddefnyddir i fonitro perfformiad ac adrodd ar gynnydd. Maent hefyd yn hwyluso dysgu.

## Y Ddraig Ffynci

Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru yw'r Ddraig Ffynci, a sefydlwyd fel elusen yn 2004. Sefydliad ydyw a arweinir gan bobl ifanc, ac sy'n derbyn arian craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ei brif nod yw darparu cyfle i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed leisio eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy.

## Eiriolaeth - gweler Eiriolaeth annibynnol

## Eiriolaeth annibynnol

Unigolyn neu wasanaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl ar ran y plentyn neu'r person ifanc heb unrhyw wrthdaro buddiannau na phwysau. Er enghraifft, dylent fod yn ddigon annibynnol ar lunio polisïau, darparu gwasanaethau, gweithdrefnau cwyno, cynllunio ac adnoddau ac yn ddigon pell oddi wrthynt.

## Estyn

Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yw Estyn. Ei nod cyffredinol yw codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a chynghori, gan gefnogi gweledigaeth a chyfeiriad strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

Lansiwyd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth fis Medi 2005. Mae'n nodi ansawdd y gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd hawl i'w derbyn, ac yn nodi dros 200 o gamau allweddol penodol fydd yn cyflwyno safonau gwasanaeth mewn iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau llywodraeth leol eraill (addysg, cludiant a'r amgylchedd), o'r cyfnod cyn geni hyd nes y byddant yn oedolion. Mae'r GIG ac awdurdodau lleol yn gyfrifol ar y cyd am weithredu'r NSF mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol allweddol eraill.

## Fforwm ieuenctid/cyngor ieuenctid

Mae mwyafrif awdurdodau lleol Cymru wedi sefydlu fforymau ieuenctid neu gynghorau ieuenctid i helpu pobl ifanc ar lefel leol i ddatblygu sgiliau a hyder i leisio'u barn mewn cyfarfodydd lle mae oedolion yn gwneud penderfyniadau.

## Gofal seibiant

Gofal a ddarperir ar sail tymor byr er mwyn i ofalwyr gael seibiant oddi wrth ofalu. Defnyddir y term "egwyl fer" weithiau ar gyfer cyfnodau byrrach o ofal am ychydig oriau neu ddiwrnod neu ddau. Mae'r term "seibiant" fel arfer yn golygu cyfnodau hirach o ofal amgen.

Gofal seibiant, felly, yw gofal a roddir i un person er budd person arall, y gofalwr. Dylai'r profiad o ofal seibiant fod yn un cadarnhaol i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal.

## Gofalwyr ifanc

Yn ôl Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000, mae "gofalwr ifanc" yn rhywun dan 18 oed sy'n cymryd cyfrifoldeb am rywun sy'n sâl, yn anabl, mewn oed, yn dioddef trallod meddyliol neu'n cael eu heffeithio gan ddefnyddio sylweddau, neu'n cymryd cyfrifoldeb sylweddol am ofalu am frawd neu chwaer.

## Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)

NOMS, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yw'r system y mae Llywodraeth y DU yn ei defnyddio i gomisiynu a darparu gwasanaethau cywiro ac ymyriadau o'r ansawdd uchaf er mwyn amddiffyn y cyhoedd a gostwng achosion o aildroseddu. Ceir swyddfa yng Nghymru, gyda Chyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr yn ben arni, sy'n gyfrifol am gyflwyno gostyngiad mewn achosion o aildroseddu a rheoli troseddwyr yng Nghymru.

## Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

Diffinnir y rhain, yn Neddf Dysgu a Medrau 2000, fel gwasanaethau fydd yn annog, galluogi neu'n helpu pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i:

- gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;
- cymryd mantais o gyfleoedd am waith; neu
- gymryd rhan effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

## Gwasanaethau Gwybodaeth Plant

Dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o ran gofal plant a lleoedd addysg feithrin am ddim yn eu hardal. Rhaid i'r gwasanaethau gwybodaeth hyn hefyd allu darparu gwybodaeth i rieni am yr hyn sydd gan wasanaethau lleol eraill (heb fod yn rhai gofal plant) i'w cynnig a sut y gellir cael gafael ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Y disgwyl yw y byddant yn gallu cyfeirio rhieni at ffynonellau gwybodaeth cenedlaethol fel bo'n briodol, megis gwybodaeth am gredydau treth.

## Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC)

Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn darparu adnoddau, gwybodaeth a chyngor i alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn Iechyd Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni eu swyddogaethau iechyd cyhoeddus statudol. I wneud hyn, mae'r GICC yn cyflwyno ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus, gan geisio:

- Gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd;

- Amddiffyn rhag afiechydon sydd eisoes yn bodoli, rhai newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau i iechyd; a
- Chyfrannu i wella'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gwasanaeth Ieuenctid

Mae'n cynnwys darpariaeth yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol o wasanaeth anffurfiol i bobl ifanc a gyflwynir mewn ystod o leoliadau ac sydd â'r nodweddion canlynol yn sail iddo:

- cyfranogiad gwirfoddol pobl ifanc sydd wedi dewis cymryd rhan yn y broses;
- Oed-benodol (11-25);
- Cael ei yrru gan bobl ifanc - dull gweithredu cyntaf; a
- Dull cyffredinol o weithredu.

## Gwerthusiad

Astudiaeth drylwyr a gynhelir ar adeg benodol i lunio barn am werth ymyriad, i ddadansoddi prosiect, rhaglen neu bolisi er mwyn asesu pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus y mae wedi bod, a pha wersi y gellir eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Fel arfer, mae gwerthusiadau'n ymwneud â mynd i'r afael â "beth sy'n gweithio i bwy ym mha gyd-destun".

## Hawliau - gweler Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

## Llwybrau Dysgu

Mae 'Llwybrau Dysgu 14-19' yn fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi ymrwymo i drawsnewid darpariaeth ddysgu ar gyfer holl bobl ifanc Cymru, gan ddarparu ystod ehangach o brofiadau fydd yn bodloni anghenion amrywiol pobl ifanc Cymru.

## Mesurau dirprwy

Mesurau benthyg yw mesurau dirprwy, neu'r peth agosaf at y gorau, ac maent yn anghyflawn yn yr ystyr mai dim ond cyfres gyfyngedig iawn o'r priodweddau sydd eu hangen i ddiffinio perfformiad sydd ganddynt.

## Mesurau mewnbwn

Mae'r rhain yn mesur yr adnoddau dynol ac ariannol sy'n rhan o weithredu ymyriad.

## Mesurau proses

Mesurau o'r gweithgaredd, yr allbynnau neu'r adnoddau a ddefnyddiwyd yw mesurau proses. Ar y gorau maent yn mesur gweithgaredd nid canlyniad. Mae mesurau proses, yn arbennig cost, amser a swm, yn weddol hawdd eu mesur gan eu bod yn rhwydd i gael gafael arnynt.

## Mesur perfformiad

Defnyddio tystiolaeth ystadegol i bennu'r ffordd ymlaen tuag at amcanion sefydliadol penodol a ddiffiniwyd.

## Monitro

Proses barhaus o archwilio darpariaeth cynnyrch rhaglen i'r buddiolwyr bwriadedig, a gynhelir tra mae rhaglen yn mynd rhagddi gyda'r bwriad o gywiro unrhyw wyriad oddi wrth yr amcanion gweithredol ar unwaith. Mae'n golygu casglu gwybodaeth ariannol, reolaethol a chanlyniadol yn systematig wrth i'r rhaglen gael ei gweithredu. Dylid adrodd ar y wybodaeth hon er mwyn gallu cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y gwireddir buddion y polisi neu'r prosiect, ac mae'n aml yn cynhyrchu data y gellir ei ddefnyddio mewn gwerthusiadau. Cynhelir gwerthusiad, ar y llaw arall, ar adeg benodol, ac mae'n cynnwys astudiaeth drylwyr.

## Nodau Craidd - gweler Saith Nod Craidd

## Offeryn Archwilio Hunan-asesu (SAAT)

Dyluniwyd yr Offeryn Archwilio Hunan-asesu (SAAT) i alluogi partneriaid lleol i gyd-asesu a monitro eu cynnydd yn erbyn pob un o'r pwyntiau gweithredu yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (NSF), ac adrodd ar y cynnydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Rhoddodd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 gyfrifoldeb statudol ar brif weithredwyr yr heddlu a'r awdurdodau lleol i gydweithio â phartneriaid eraill i lunio strategaeth ddiogelwch gymunedol a'i rhoi ar waith. Arweiniodd hyn at lunio Partneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn sydd, dros amser, wedi dod i gael eu hadnabod fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Mae 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, un ym mhob ardal awdurdod unedol. Mae awdurdodau'r heddlu, y Gwasanaeth Tân a Byrddau Iechyd Lleol yn awdurdodau newydd sydd wedi cael eu hychwanegu'n ddiweddar.

## Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

Mewn Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, mae Awdurdod Lleol (ALl) a Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ardal yn gorfod cydweithio i lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer eu cymuned.

## Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Mae Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cynllunio darpariaeth addysg leol ar gyfer plant dan oedran ysgol gorfodol, ac yn cynllunio gofal plant ar gyfer plant rhwng 0 a 14 oed. Ceir un bartneriaeth ym mhob ardal awdurdod addysg lleol.

## Plant

Mae Erthygl 1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan bawb o dan 18 oed bob hawl a nodir yn y Confensiwn. Yn fwy cyffredinol, defnyddir y term "plant" i gyfeirio at y rheiny sydd o dan 10 oed, a defnyddir "pobl ifanc" ar gyfer y rheiny sydd rhwng 11 a 18 oed (caiff hyn ei ymestyn i 25 oed weithiau, yn dibynnu ar y cyd-destun).

## Plant ag anghenion cymhleth

Mae gan blentyn neu berson ifanc anghenion cymhleth os oes arnynt angen gwasanaethau dau neu fwy o asiantaethau, heb gynnwys y gwasanaethau cyffredinol y mae pob plentyn yn eu derbyn.

## Plant a phobl ifanc

Mae'r termau hyn fel arfer yn cyfeirio at y rheiny sydd rhwng 0 a 18 oed, neu hyd at 25 oed, yn dibynnu ar gyd-destun neu ystod oedran y gwasanaeth neu'r polisi dan sylw. Cyfeirir at rai dan 10 oed fel arfer fel "plant", a'r rheiny sydd dros 10 oed fel "pobl ifanc".

## Plant mewn angen

Yn unol â Deddf Plant 1989, ystyrir bod plentyn mewn angen os:

- yw ef/hi yn annhebygol o gyrraedd neu gynnal, neu o gael cyfle i gyrraedd neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau ar ei gyfer/ei chyfer;
- yw iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn debygol o gael ei amharu'n sylweddol, neu ei amharu ymhellach, heb i wasanaethau o'r fath gael eu darparu ar ei gyfer/ei chyfer; neu os
- yw ef/hi yn anabl.

## Plentyn anabl

Plentyn na all, neu sy'n cael ei gyfyngu rhag, perfformio gweithgaredd (oherwydd nam) mewn modd neu ystod a ystyrir yn arferol ar gyfer plentyn o oedran tebyg.

## Plentyn sy'n derbyn gofal

Plentyn neu berson ifanc (iau na 18 oed) sy'n derbyn gofal awdurdod lleol dan orchymyn gofal gan y llysoedd, neu a letyir dan drefniant gwirfoddol oherwydd nad oes gan unrhyw berson gyfrifoldeb rhiant amdano/amdani, am ei fod ef/hi ar goll neu wedi cael ei adael/gadael, neu am fod y person sy'n gofalu amdano/amdani yn cael eu rhwystro rhag darparu llety neu ofal addas ar ei gyfer/ei chyfer.

## Pobl ifanc

Fel arfer yn cyfeirio at y rheiny sydd rhwng 11 a 18 oed, ond fe'i defnyddir weithiau ar gyfer y rhai hyd at 25 oed.

## Pobl sy’n gadael gofal

Pobl ifanc sy’n 16 oed neu’n hŷn ac sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers eu pen-blwydd yn 14 oed.

## Rhanddeiliaid

Yr amrywiol unigolion a sefydliadau a effeithir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan weithrediad a chanlyniadau ymyriad penodol, ac sy’n debygol o fod â diddordeb yn ei werthusiad (e.e. rheolwyr rhaglenni, rhai sy’n gwneud penderfyniadau, poblogaeth darged y rhaglen).

## Rhieni

“Rhiant” yw unrhyw un sy’n ymgymryd â rôl rhianta. Gall hyn gynnwys mamau a thadau, gofalwyr maeth a rhieni sy’n mabwysiadu, llysrieni a neiniau a theidiau/mam-guod a thad-cuod. Mae’r rhain i gyd yn chwarae rhan hanfodol o ran rhoi dechrau teg mewn bywyd i’r plant yn eu gofal, gan ddarparu’r sylfaen gorau ar gyfer twf a datblygiad plant a phobl ifanc. Gall awdurdodau lleol hefyd weithredu fel rhieni corfforaethol i blant a phobl ifanc mewn gofal.

## Rhwydweithiau Rhieni

Mae Rhwydweithiau Rhieni i’w cael mewn amryw ffurfiau, ond un o’u prif ddibenion yw helpu rhieni i leisio’u barn ar benderfyniadau a wneir ar lefel strategol. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth, gwybodaeth a digwyddiadau ar gyfer rhieni.

## Safonau cyfranogiad

Saith safon ansawdd yw’r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, all ddarparu ffordd o arolygu ac asesu arferion cyfranogol. Ymgynghorwyd arnynt ac fe’u cefnogwyd gan bobl ifanc yn y Ddraig Ffynci, a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Lansiwyd hwy fis Ionawr 2007.

## Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Nodau cyffredin Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc, pob un wedi’i seilio ar Erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Mae’r Saith Nod Craidd yn sail i holl waith Llywodraeth y Cynulliad gyda phlant a phobl ifanc

yng Nghymru, ac ar eu cyfer, ac yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru, ar lefel genedlaethol a lleol.

## Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

Mae cyd-ddyletswydd statudol ar bob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ac Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru i lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn ardal yr ALl. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd pob Strategaeth yn para 3 blynedd er mwyn cyd-fynd â Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc (2008-11).

## Strategaeth Gostwng Troseddau ac Anhrefn

Lluniwyd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (gweler uchod). Yn ôl Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, rhaid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol lunio a gweithredu strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, ochr yn ochr â'r rheiny ar gyfer trosedd ac anhrefn. Drwy hyn, mae'n rhoi cefnogaeth statudol i strategaethau camddefnyddio sylweddau am y tro cyntaf yn ogystal â phwysleisio'r cysylltiadau amlwg rhwng cyffuriau a throsedd.

## Strategaeth Gymunedol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir/bwrdeistref sirol yng Nghymru i baratoi strategaethau cymunedol ar gyfer hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd a chyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy.

## Targedau

Mae targedau'n nodi lefelau dymunol o welliannau dan gyfyngiad amser.

## Timau Troseddau Ieuenctid

Mae yna Dîm Troseddau Ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a swyddogion tai. Yn ôl Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, rhaid i Brif Weithredwr pob awdurdod lleol oruchwylio sefydlu Tîm Troseddau Ieuenctid aml-asiantaeth yn eu hardal, dan arweiniad grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr

yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y gwasanaethau cymdeithasol, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Awdurdod Iechyd. Mae'r grwpiau llywio hyn bellach wedi datblygu'n fyrddau rheoli YOT sydd, ym mhob rhan o Gymru, yn goruchwylio'r gwaith o atal troseddu ymysg ieuenctid a chynhyrchu cynllun cyfiawnder ieuenctid statudol blynyddol gan y Timau Troseddu Ieuenctid. Mae'r Timau Troseddu Ieuenctid yn asesu anghenion pob troseddwr ifanc er mwyn dod o hyd i'r ffactorau penodol sydd wrth wraidd eu hymddygiad troseddol, hwyluso rhaglenni addas er mwyn atal troseddu pellach a goruchwylio'r rheiny sy'n gwneud cosb gymunedol.

## Ymddiriedolaethau'r GIG

Cyrff statudol yw Ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n darparu ystod o wasanaethau ysbyty a chymunedol integredig. Mae yna 14 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru ac mae eu ffiniau, ac eithrio Powys, lle mae rolau'r BILl a'r Ymddiriedolaeth yn gyfun, yn gydffiniol.

## Ymyriad

Term generig a ddefnyddir i gynnwys pob math o weithredu cyhoeddus.

## Ymyriadau ataliol cynnar - gweler atal

## Ysgol Fro

Ysgol sy'n darparu amrediad o wasanaethau a gweithgareddau yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, er mwyn helpu bodloni anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgolion yn cydweithio â phartneriaid lleol i ddatblygu'r ddarpariaeth y credant sy'n addas ar gyfer eu cymuned eu hunain.